- Dosbarthiadau awyr agored a chyfleoedd i ddefnyddio ardal goetir y 'domen' tu ôl i'r Ganolfan. Mynediad at 'ofodau creu' ac offer y gall pobl ei ddefnyddio e.e. graddedigion, dylunwyr, gwneuthurwyr, adeiladwyr dillad a chelfi llwyfan, cynhyrchiadau theatr ac adeiladwyr setiau. Hoffwn i weld canolfan addysg yno, canolfan sy'n gallu cynnig cymwysterau BTEC a sesiynau i blant yn y gwyliau. Byddai'n bosib creu cysylltiadau gydag ysgolion lleol – hoffwn i ymwneud â phrosiect 'artist preswyl' yn gweithio ar adeiladwaith mawr a diwrnodau adeiladu i thema gyd phlant lleol.
- Siop yn gwerthu cynnyrch celf a chrefft i'r cyhoedd, ac yn cyfrannu canran o'r arian i'r Ganolfan.
- Gwasanaethau yn gysylltiedig ag iechyd, megis trin traed a chlinigau eraill.
- Byddai unrhyw wasanaethau sy'n helpu pobl sydd wedi ymddeol o fantais mawr.
- Amserlenni'r bysiau, gwybodaeth am fusnesau lleol, gwybodaeth ynghylch arbed arian ar bopeth, cefnogaeth iechyd meddwl, gwybodaeth am wasanaethau lleol – rhifau ffôn gwasanaethau'r cyngor, yr heddlu, y frigâd dân ayyb, cyfleoedd gwirfoddoli, cyrsiau coleg.
- Llyfrgell o lyfrau / offer i'w benthyg
- Defnydd llungopiwr, cyfleusterau rhyngwyd ayyb.
- Rhestr o'r bobl sy'n fodlon helpu'r henoed neu'r bregus gydag apwyntiadau ysbyty, gwasanaethau ayyb.
- Pwynt gwybodaeth gymunedol i helpu pobl i ddatrys unrhyw broblemau sydd ganddynt.
- Iechyd meddwl a gwasanaethau alcohol neu gyffuriau.
- Gweithgareddau ar ôl ysgol i blant i'w helpu i ddysgu sgiliau a phrofiad.
- Mae'r DVLA yn ymwneud â chlwb codio ac efallai'n gallu helpu


- Cyngor budd-daliadau
- CAB
- Cyfarfodydd AA, clybiau diet, clybiau therapi ar gyfer y rhai sy'n gorfwyta mewn pyliau – eu helpu i reoli hyn, ac efallai clwb gwneud ffrindiau.

Os gyda chi unrhyw syniadau ynghylch ffyrdd o leihau costau cynnal yn y Ganolfan?

DO YOU THINK MOST PEOPLE IN THE COMMUNITY ARE AWARE OF THE CENTRE?

- Mwy o godi arian a gwirfoddoli
- Paneli Haul
- Defnydd o oleuadau mwy ynni-ffeithiol, ac efallai lleihau'r defnydd o bapur. Ddim yn siwr os oes paneli haul ond gallai hynny helpu hefyd.
- Mwy o weithgareddau yn y Ganolfan
- Cynnal digwyddiadau poblogaidd sy'n talu am eu hunain neu hyd yn oed yn gwneud elw bach. Byddai'n bosib defnyddio'r elw er budd y gymuned.
- Paneli haul i leihau costau ynni (os yn bosibl).
- Tyrbinau bach i wneud defnydd o'r gwynt ar y tir uchel tu ôl i'r Ganolfan (hefyd i leihau costau). System wresogi biomas?
- Mynediad at *Cwm Environmental* am ddeunyddiau i wneud cynnal dosbarthiadau yn rhatach, ac i hyrwyddo ailgylchu ac ail-dddefnyddio gwastraff. Rhoddion oddiwrth gwmnïau lleol i ddarparu deunyddiau ayyb.(fel y cynlluniau sydd wedi cau yn Trysordy yng Nghaerfyrddin a Playright yn Abertawe).
- Gwerthu gwaith celf a chreffft y bobl sy'n mynychu'r dosbarthiadau a'r grwpiau, a chadw tua 25% o arian y gwerthiant ar gyfer cronfa'r Ganolfan.
- Bylbiau LED yn yr ystafelloedd
- Rhestr o ganllawiau cyffredinol ynghylch troi goleuadau i ffwrdd, arbed gwres a chau drysau i'w rhoi i ddarparwyr dosbarthiadau.
- Cwtogi ar ddefnydd trydan a defnyddio llai o bapur.
- Ei logi ar gyfer partïon plant a gigiau.
- Gwell defnydd. Dw i byth wedi'i weld yn cael ei ddefnyddio ar gyfer partïon. Partneru ag adloniant i roi pris disgownt i ddod â mwy o fasnach i'r Ganolfan.
- Paneli haul.
- Ceisio sicrhau taw dim ond yr ystafelloedd a ddefnyddir sy'n cael eu gwresogi i dymheredd cyfforddus, gyda'r gweddill dim ond yn cael eu cynnal ar lefel ddiogel (i osgoi difrod gan rew); efallai y byddai amserwyr ar gyfer y gwahanol adrannau (ystafelloedd) hefyd yn ddefnyddiol.
- Codi prisiau rhesymol am gyrsiau a phrisiau rhesymol am ddiodydd ayyb; efallai dim ond talu yr hyn sydd rhaid fel ffi ymuno o ddyweder £20, yna 3 yr wythnos wedi hynny.





Oes syniadau gyda chi o sut y gallwn gynyddu incwm y Ganolfan?

Beth allen ni ddarparu a fyddai'n codi arian ar gyfer gweithgareddau cymunedol eraill yng Nghwmaman?

- Defnyddio'r Ganolfan fel man cychwyn digwyddiadau mwy sy'n cynnwys y gymuned gyfan, teithiau beic, rasmus hwyl, carnifalau ayyb. Dylai'r rhain ddechrau yn y Ganolfan. Mae'r carnifal yn gwneud gormod o ddefnydd o'r clybiau rygbi a phêl-droed. Mae angen y gefnogaeth yma ar y Ganolfan "Gymunedol" ... bydd y clybiau rygbi a phêl-droed yn cadw i fynd berth bynnag sy'n digwydd.
- Mae'n anodd dweud heb siarad ag eraill. Byddai angen cefnogaeth pawb sy'n defnyddio'r Ganolfan ar unrhyw weithgareddau codi arian. Byddwn i'n barod i dalu i ymgysylltu â gweithgareddau grŵp sy'n cynnwys fy nghŵn h.y. ystythder cŵn, trefnu teithiau cerdded lleol i gŵn, i enwi ond ychydig.
- Mwy o ddigwyddiadau.
- Mwy o glybiau a grwpiau nad ydynt ar gael yn lleol. Cyfrifiadura, electoneg, chwarae gemau cyfrifiadur.
- Cynnal digwyddiadau cymunedol i fusnesau, a busnesau'n rannu canran o'r arian gwerthiant. Byrddau hysbysebu, gyda busnesau yn talu'n flynyddol / yn chwarterol ayyb i hysbysebu yn y gofod hwnnw.
- Tâl aelodaeth os am gael mynediad at beth o'r cyfarfpar a soniwyd amdano.
- Gwersylloedd Haf i blant – byddai hyn hefyd yn help i rieni sy'n gweithio.
- Mwy o ddigwyddiadau yn y Ganolfan.
- Cynnal digwyddiadau poblogaidd. Annog diwrnodau gweithgaredd crefft.
- Y café, y siop, cynhyrchiadau theatr, storfa sgrap, cynhaledd comics, mynediad at ofodau creu ayyb – byddai'r rhain yn cynhyrchu incwm ychwanegol. Byddai hefyd yn help i gynnal mwy o ddigwyddiadau fel Gŵyl y Twrch Trwyth ac efallai cynnal parêd neu lwybr/ffair i gysylltu â'r digwyddiad yn Rhydaman.
- Gwyliau cymunedol
- Llogi ar gyfer parti.
- Codi tâl rhesymol am fynychu unrhyw ddsbarthiadau a chodi tâl bach am edrych ar gelf ayyb
- Codi tâl ar fusnesau lleol i hysbysebu ar hysbysfwrdd ac ar y wefan.
- Cael grwpiau i gynhyrchu pethau i'w gwerthu, a chadw canran o'r arian gwerthiant.
- Cynnal arwerthiannau cacennau
- Mwy o gyngherddau
- Llogi gofod ar gyfer arddangosfeydd, perfformiadau, digwyddiadau cymdeithasol – disco, dosbarth dawn, ysgol lwyfan i blant, ond dylai'r pwyslais cyntaf fod ar farchnata'r Ganolfan, ar hyn sydd ganddi i'w gynnig.
- Mwy o ddigwyddiadau y mae angen prynu tocyn ar eu cyfer. Byddai'r café yn help hefyd.
- Mwy y defnydd mwya yr arian a fydd yn dod i mewn.


- Agor café. Cynnal mwy o gyrsiau.
- Gallai ystafell goffi / te gysurus y byddai pobl am ymweld â gynhyrchu incwm, gan nad oes cyfleusterau tebyg ar gael yn y cyffiniau. Byddai angen ei hysbysebu fel bod pobl lleol yn gwybod amdani, a dylai hefyd fod yn rhad i annog mwy o ddefnydd e.e. ni fydd gwerthu coffi am brisiau *Costa* yn gweithio, ond byddai coffi tebyg i goffi *Costa*, ond am bris coffi parod yn gweithio, a byddai pobl yn fwy tebyg o brynu cacen. Efallai byddai'r syniad yn gweithio'n well pe byddai'r syniad o gyfnewid llyfr yn cael ei gynnwys.
- Apelio at gynulleidfa ehangach. Diddori pawb yn rywbeth.

4.2.3. Gweithdy Cymunedol


Are you aware of the Community Workshop space in Glanamau? If the Workshop provided services or facilities that interested you, would you use it?




■ Yes ■ No





■ Definitely ■ Probably ■ Maybe ■ No






4.2.4. Pafiliwn Bowlio




Syniadau:

- Dylai gael ei redeg gan breswylwyr lleol – o bosib fel rhan o gynllun gwirfoddoli.
- Gallai teithiau beic helpu bobl i ymgysylltu.
- Dylai llogi beiciau wneud hi'n bosibl i deuluoedd fynd i siopa a gwneud tasgau arferol eraill.
- Ni ddylai'r café werthu "bwyd sothach".
- Mae angen mwy o ddefnydd o'r Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd (MUGA). Dylid trefnu gweithgareddau a sicrhau bod offer ar gael.
- Efallai cynnal partïon penblwydd, a mwy o ddiwrnodau gweithgaredd ar y safle.
- Does unman yn lleol y gall marchogion ymweld â am goffi. Ni fyddai hyn yn anodd o ystyried faint o le sydd yn Golwg yr Aman.
- Byddai cynnig amrywiaeth o feiciau yn ei wneud yn ddi-ddorol. Efallai ambell i feic gyda chanopi uwch ei ben, neu feiciau tair sedd.
- Roedd arfer bod siopau yn yr ardal yn gwerhu tegantau awyr agored rhad. Efallai y byddai modd cynnwys hyn: peli, gemau, barcutiaid, gemau dŵr ayyb.
- Mae'n rhaid i gerddwyr cŵn gael mynediad at fagiau gwastraff, dŵr a byrbrydau i gŵn, rhywle i gwrdd am goffi heb fod pobl yn cwyno.
- Byddai'n bosibl cyflenwi picnic i bobl ei ddefnyddio yng Ngholwg yr Aman, neu ger y coed yn ymyl y pafiliwn.
- Byddai'n bosibl cynnal barbeciwiau cymunedol ger y safle ... gyda gemau a gweithgareddau i deuluoedd.
- Byddai'n bosibl cynnal digwyddiadau hedfan drôn i blant yn y MUGA; dronau'n hedfan ar y tu fewn tra bod y plant yn sefyll ar y tu allan (lleihau risg).


4.2.5. Canolfan Adnoddau Ieuenctid



4.2.6. Yr Hen Focs Signalau



4.2.7. Ardaloedd Chwarae



4.3. Dewis Grŵp Ffocws ar hap a damwain

Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rhagdybiaeth yn yr astudiaeth o ganlyniad i'r grwpiau ffocws demograffig, gofynnwyd i ystod o breswylwyr lleol, a ddewiswyd ar hap a damwain, i ymateb i set o gwestiynau. Gweler yr atebion i'r cwestiynau hyn isod. Os oedd dyblygiad yn yr atebion, cafodd y rhain eu golygu i sicrhau eglurder yn y ffocws cyffredinol o'r pryderon a'r syniadau a gyflwynwyd.

1. Pan yn ystyried dyfodol Cwmaman..... Yn eich barn chi, pa fath o newidiadau fyddai'n ei wneud yn well lle i fyw ynddo?
 - Dymchwel hen Neuadd y Gweithwyr a doluriau llygad eraill yn yr ardal.
 - Mae gan Gwmaman llawer iawn o gyfalaf cymdeithasol. Gwelliannau amgylcheddol yw'r mwyafrif o'r gwelliannau sydd angen eu gwneud, e.e. cynnal a chadw Golwg yr Aman yn gyson, biniau cŵn, glanhau amgylcheddol cyffredinol, Llai o arwyddion – llygredd arwyddion ffordd, delio ag adeiladau diffaith e.e. neuadd y Gweithwyr, Cwmaman, a gwella parcio ceir ar Heol Cwmaman.
 - Deddfau cŵn yn baeddu sy'n cael eu gorfodi'n iawn – mae mwy a mwy o gwmpas llwybr glan yr afon ac ardaloedd y parciau, hyd yn oed yn tyfu mewn coed a llwyni!!
 - Dw i'n meddwl ei fod eisoes yn lle neis i fyw ond, yn anffodus, mae rhai o'r problemau sydd angen eu wynebu yn anoddd iawn i'w datrys e.e. mwy a mwy o draffig, nifer o dai gwag yn dirywio.
 - Byddai creu amgylchedd ddiogel i gerddwyr a beicwyr o fudd mawr i Gwmaman. Byddai'n annog bobl i ddefnyddio llai o'r car ar gyfer teithiau penodol a fyddai'n creu llai o dagfeydd, yn gwella ansawdd yr aer a chyflwr yr heolydd, yn enwedig o ran diogelwch ar y ffordd. Byddai cynnig llwybr newydd a llwybr oddiar yr heol ar hyd llwybr Beicio Dyffryn Aman a llwybr Glan yr Afon yn ddechrau da, gan y byddai hyn yn annog cerdded a beicio ac yn gwella diogelwch cymunedol. Byddai hefyd yn syniad da i adeiladu cysgodfannau beiciau yn yr ysgol leol - Ysgol y Bedol – i annog plant ifanc i feicio i'r ysgol.
 - Gwneud y lle yn bertach – mwy o welyau blodau gwyllt ayyb.
 - Gwell defnydd o ofod cyhoeddus.
 - Dylai pob arwydd cyhoeddus fod yn ddwyieithog.
 - Troi Capel Calfaria yn amgueddfa Dyffryn Aman.
 - Defnyddio prosiectau datblygu cynaliadwy i fynd i'r afael ag anfantais cymdeithasol a thlodi.
 - Gweithdai i annog ac i gefnogi pobl ifanc.
 - Gwell cyfathrebu rhwng y cyngor lleol a phreswylwyr y gymuned.
 - Gwahardd cŵn o'r llwybrau cyhoeddus o Heol Grenig i Frynllai.
 - Mae Cwmaman wedi colli ei "ymdeimlad o gymuned" gan nad oes gan lawer o'r trigolion gysylltiad â'r ardal, na chwaith ddealltwriaeth o'i hanes ac o'r datblygiadau diweddar yn y pentref.
 - Mae angen mynd i'r afael â, a gwella, "doluriau llygad" e.e. mae'r holl gerbydau Land Rover ger garej Ellis yn edrych yn ofnadwy.
 - Adnabod a chynnig cyfeillgarwch i bobl nad ydynt yn draddodiadol yn "ymgysylltu" am ba bynnag reswm.
 - Mae angen lleihau taflu sbwriel a baeddu gan gŵn.
 - Mae angen mwy o bwyslais ar yr iaith Gymraeg ac ar ddisbarthiadau sgwrsio Cymraeg.
 - Mae parcio ar y ffordd fawr yn achosi problemau diogelwch. Mae angen lledaenu'r heol fawr.

- Mae angen mwy o dai fforddiadwy fel bod bobl lleol yn gallu aros yn yr ardal, a ffurfio mwy o ymdeimlad o gymuned. Mae gormod o dai ar rhent, sy'n gartrefi i bobl nad oes ganddynt ddiddordeb yn yr ardal.
- Mae angen mynd i'r afael ag adeiladau diffaith h.y. Neuadd y Gweithwyr a Chapel Brynseion
- Mwy o finiau sbwriel wedi'u gwasgaru a gwmpas y gymuned i leihau'r broblem sbwriel, er enghraifft, tu allan i "Siop y Pentre"
- Gwell / rhagor o gyfleusterau parcio yn Ysbyty Dyffryn Aman
- Biniau sbwriel ar hyd ochr y ffordd
- Mynediad ar ragor o weithwyr cymunedol /yn y gymdogaeth a fyddai'n gweithio "gyda" preswylwyr lleol i wneud y lle yn well i fyw ynddo.
- Cynyddu cydlyniant cymuneol, cysylltu pobl mwy â'i gilydd, prosiectau allgymorth, gan fod llawer o bobl yn methu cyrraedd canolfannau ayyb.

2. Ym mha ffordd rydych yn meddwl y gallwn wneud defnydd o asedau ffisegol a dynol y gymuned?

- Cafodd y pwll padlo ym Mharc Cwmaman ei uwchraddio haf diwethaf, ond erbyn hyn mae yn ôl fel yr oedd oherwydd diffyg cynnal a chadw ac esgeulustod.
- Cynyddu hysbysebu am wasanaethau cymunedol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Efallai gwneud defnydd o "uned werthu" ar Heol Cwmaman i'w defnyddio fel canolfan adnoddau galw heibio.
- Gall rhai o'r asedau ffisegol weithio yn erbyn ei gilydd e.e. mae gennym nifer o neuaddau bach y mae pobl yn ceisio dod o hyd i ddefnydd iddynt, ond nid ydynt yn addas at ein gofynion ni! Mae angen defnyddio festrioedd capel, neuadd eglwys a chlybiau er mwyn iddynt aros yn gynaliadwy, ond maen nhw'n lefydd da i gynnal cyngherddau, neu adloniant megis noson lawen. Efallai y dylid canolbwyntio ar ddatblygu un ganolfan aml-bwrpas a fyddai'n haws i'w gynnal yn yr hir dymor.
- Gallai aelodau ymgysylltu mwy â'r gymuned, efallai fel gwirfoddolwyr e.e. bod yn lywodraethwr ysgol, ymwelydd ysbyty, helpu mewn siop elusen, helpu gyda chadwraeth ayyb.
- Cefnogi busnesau lleol drwy brynu yn lleol, gan fod hyn yn hanfodol os yw'r gymuned i ffynnu. Mae angen i'r aelodau wneud mwy o ymdrech i gefnogi ffermwyr lleol a phrynu cynnyrch lleol.
- Byddai casglu sbwriel a garddio yn helpu gwneud yr ardal leol yn well lle i fyw. Mae trefnu digwyddiadau "Taclusiad Mawr", lle y mae aelodau'r gymuned yn dod at ei gilydd i dacluso'r ardl, yn syniad da iawn.
- Byddai modd gwneud defnydd mwy gwerthfawr o Ganolfan Gymunedol Glanamman fel lleoliad ar gyfer ystod o grwpiau cymunedol. Byddai plant lleol yn elwa ar gynllun Chwarae yn yr Haf – rhywle iddynt fynd yn ystod gwyliau'r ysgol i wneud ffrindiau newydd ac ystod o weithgareddau. Gallai hyn gael ei gynnal gan Gyngor y Dref neu fod yn hunan-lywodraethol.
- Mae angen addasu'r pwll padlo ym Mharc Garnant. Ar hyn o bryd mae'r pwll wedi mynd yn adfail, a heb ei ddefnyddio am flynyddoedd lawer; mae hyn yn atal plant lleol rhag ei ddefnyddio. Does ond rhaid astudio'r "padiâu sblassio" ym Mharc Rhydaman, ac anelu at rywbeth tebyg.
- Mae angen mynd i'r afael â'r adeiladau gwag yng Nglanamman. Byddai'n bosibl trawsnewid y gweithdai a'u defnyddio unwaith eto. Byddai hyn yn creu mwy o swyddi yn y gymuned, ac yn sefydlu unedau diwydiannol y gallai pobl busnes lleol eu defnyddio at lawer pwrpas h.y. storio ayyb.
- Gwell defnydd o'r Ganolfan Gymunedol, clybiau TGCh i blant a defnydd hygyrch o'r dechnoleg ddiweddaraf i bobl lleol.

- Yn dilyn canlyniadau'r gwaith hwn, dylai'r Cyngor Cymunedol ddatblygu cynllun tymor byr, cynllun tymor canolig a chynllun tymor hir i adnabod yr adnoddau dynol ac ariannol priodol er mwyn gwireddu nodau ac amcanion yr arolwg / astudiaeth.
- Mwy o hysbysebu o'n hasedau e.e. Clwb Golff Cwmaman, Llwybr Glan yr Afon a'r Ysbyty Bach.
- Cyfathrebu â phobl ifanc i ofyn eu barn ynghylch sut y gallwn wneud y defnydd gorau o'r asedau hyn.

3. Pa asedau eraill byddai'n bosib eu defnyddio?

- Ecsbloetio ein hetifeddiaeth ddiwylliannol a ieithyddol i daclo cynhwysiad cymdeithasol. Defnyddio adeiladau diffaith ar gyfer gweithgareddau cymunedol a cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol, yn enwedig ar gyfer bobl ifanc.
- Yr amgylchedd naturiol! Mae gennym ardaloedd cerdded / beicio hyfryd a allai fod yn sail i wyliau penwythnos ar thema (pe byddai llety derbynol ar gael, ar sail gwely a brecwast). Byddai'n bosibl hyfforddi tywysydd i arwain teithiau ar thema hanesyddol/ diwylliannol yn ystod y dydd, a chyflwyno adloniant grŵp bychan i ddilyn pryd o fwyd gyda'r nos.
- Dylid gwneud mwy o ddefnydd o festrioedd capel lleol at ddefnydd busnes, preifat neu gymdeithasol e.e. partion penblwydd, dosbarthiadau cadw'n heini, cyrsiau hyfforddiant ayyb. Byddai hefyd yn syniad da hysbysebu bod yr adeilad ar gael i'w logi ar y cyfryngau cymdeithasol, gan fod hyn yn gost effeithiol ac yn gallu targedu cynulleidfa fawr.
- Byddai'n bosib defnyddio "Glo Môn" (papur Bro Dyffryn Aman) fel arf marchnata.
- Datblygu'r rheilffordd fel atyniad i dwristiaid.
- Hen Fethel/priodasau, atyniad i dwristiaid
- Cyrsiau canŵ a chwrwgl Dyffryn Aman.
- Prosiectau ysgol a chymunedol i helpu datblygu a gwarchod y tir ar bwys Ger yr Afon fel gwarchodfa natur.
- Byddai'n bosib datblygu Canolfan Ddydd Cwmaman ymhellach.
- Siop goffi Pantycelyn

4. Pa fath o newid fyddai'n gwella'ch bywyd chi?

- Mwy o gefnogaeth i'r henoed gan gynnwys cyfleusterau "cartref gofal". Cynlluniau Car Cymunedol. Gweithdai iechyd dynion, creu mwy o gyswllt rhwng preswylwyr. Sefydlu gorsaf radio leol neu gynyddu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.
- Mwy o weithgareddau / clybiau i'r anabl. Mwy o weithgareddau / clybiau i blant a'r rhai yn eu harddegau, yn enwedig yn ystod gwyliau ysgol. Dylid adfer y trac BMX ar lwybr glan yr afon.
- Tŷ tafarn croesawgar sy'n gweini'r gymuned gyfan.
- Cyfleoedd dysgu anffurfiol, clybiau llyfrau, grwpiau trafod, gwleidyddiaeth, unrhywbeth sy'n gwneud i bobl feddwl.
- Café cymunedol neis, cacennau croesawgar, neis, llyfrau, papurau newydd, digon o le i eistedd a chael sgwrs.
- Byddai o fudd i'r gymuned i gynnal Clwb Llyfrau wythnosol; efallai byddai'n bosibl ei gynnal yn y Ganolfan Gymunedol.

- Mae'r llwybr troed o Heol Grenig i Frynllai yn cael ei esgeuluso ac mewn cyflwr anniben iawn, gyda gordyfiant mieri, ffosydd agored a sbwriel a baw ci wedi'u gwasgaru ar y llwybr ei hun. Nid yw'n bleser ei ddefnyddio yn y cyflwr hwn. Mae angen bod y cyngor lleol yn sicrhau gwell cynnal a chadw o'r llwybr, a hyd yn oed gosod wyneb newydd arno i annog rhagor o ddefnydd ohono.
- Mae angen gwarchod Llwybr Glan yr Afon yn well.
- Byddai diogelwch a'r defnydd o ragor o systemau camera cylch cyfyng yn yr ardal o fantais gan eu bod yn chwarae rhan bwysig yn taclo problemau ynghlyn â diogelwch cymunedol a phryderon ynghylch troseddi lleol. Mae hefyd yn tawelu meddyliau aelodau'r gymuned.
- Does dim arwydd ar ystâd Parc Bryn Rhos.
- Nid yw lampau'r goleuadau stryd yn cael eu newid pan fyddant yn methu – mae hyn y beryglus i breswylwyr lleol. Mae gan y cyngor lleol broblem ynghylch newid hen fylbiau.
- Gweithdai crefft – gwaith coed, gwaith metal yng ngweithdai Pen Pound gydag offer addas.
- Mae'r grŵp "Babi a Fi" yn yr ysbyty lleol yn cael defnydd mawr, ac yn adnodd cymunedol ardderchog.

5. Ydych chi'n teimlo bod y newid hyn yn gallu digwydd ddigwydd?

- Ydw wrth gwrs
- Ydw, mae Canolfan Gymunedol yng Nglanaman sydd angen ei datblygu ymhellach a'i defnyddio hyd yr eithaf i gwrdd â gofynion yr ardal.
- Cyhyd a bod cyllid perthnasol, cefnogaeth gan y Cyngor, trefnwyr ac adnoddau, yn ogystal â'r ased ffisegol o leoliad addas.
- Dylai pethau newid gan ein bod yn talu'r ardrethi a threth y cyngor, felly nid yw'n deg nad oes gan y preswylwyr y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- Byddai hyn yn dibynnu ar ymrwymiad a brwdfrydedd y Cyngor ac aelodau'r gymuned, gyda'r cyfan wedi'i gefnogi gan Gynllun Ariannu a Busnes da i ddenu arian o amrywiaeth o ffynonellau.
- Mae'n dibynnu ar y dull a ddefnyddir a'r sgiliau sydd eu hangen i gynnwys y gymuned gyfan ac nid dim ond y rhai arferol.

6. Yn eich barn chi, pa rwystrau rhag ei wneud yn well lle i fyw sydd yn y gymuned?

- Diffyg buddsoddi gan y llywodraeth. Unigolion yn cael hynysu oherwydd diffyg trafndiaeth a chyfathrebu effeithiol. Efallai y byddai'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, trydar a Facebook a radio lleol yn help.
- Yr heol fawr rhwng Glanaman a Garnant – ceir wedi'u parcio ar ei hyd. Mwy o reolwyr cŵn a mwy o finiau sbwriel anifeiliaid. Mwy o finiau sbwriel yn gyffredinol i leihau'r broblem sbriel, ac mae angen eu gwaghaus yn fwy cyson.
- Mae'r gymuned yn ehangu gormod, gyda mwy a mwy o waith adeiladu yn digwydd – mae hyn yn cynyddu'r pwysau ar seilwaith ac yn lleihau natur wledig yr ardal a natur gydlynus wreiddiol y gymuned.
- Nid oes digon o Weithwyr Cymdeithasol yn gweithio gyda Chyngor y Dref.
- Diffyg arian a diffyg cefnogaeth gan y Cyngor.
- Diffyg diddordeb gan aelodau'r gymuned.
- Mae angen cefnogaeth a chyfranogiad y cyhoedd i wireddu prosiect.

- Problem amser – faint o amser mae'n cymryd i gael grantiau o Lywodraeth Cymru, ymuno â chynlluniau gwelliant, pasio ceisiadau a selio mentrau ayyb.
- Mae rhai pobl yn “anodd eu cyrraedd”.
- Mae rhai pobl y ddifater, a does dim diddordeb ganddynt yn gwella'u cymuned.
- Mae angen mwy o gydweithio a gwaith tîm, gyda phobl yn cydweithio'n well er budd pawb.
- Difaterwch a diffyg cefnogaeth.
- Mae adnoddau wastad yn broblem.
- Tlodi ac amddifadedd.
- Difaterwch y trigolion.
- Cyfyngiadau ariannol Cyngor Sir Caerfyrddin i gefnogi unrhyw gynlluniau newydd.
- Tra bod datblygiad technolegol yn beth da, os nad yw'n cael ei ddefnyddio yn y ffordd gywir gall ddinistrio hunaniaeth a chreadigrwydd.
- Mae gormod o'r preswylwyr yn dibynnu ar adloniant “parod” yn hytrach na mynd ati i chwarae rhan a chydio mewn cyfleoedd creadigol.
- Yr amser mae'n cymryd i wneud unrhywbeth. Cafodd dyn ifanc ei ladd 34 mlynedd yn ôl ar waelod Heol Grenig; aeth y gymuned ati i lobïo am groesffordd, ac fe gafodd ei osod yn ei le ar ddiwedd mis Mai 2017! Gwarthus!

7. Wrth feddwl am eich bywyd ar hyn o bryd, beth yw'r anhawster mwyaf 'rydych am ei drechu?

- Henoed /arwahanrwydd
- Mynd yn hŷn
- Cytbwysedd gwaith / bywyd
- Cadw diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn fyw
- Cŵn yn baeddu ar lwybrau cyhoeddus yn enwedig Grenig i Frynlloi
- Mae gan yr henoed a rhieni ifanc broblemau gydag arwahanrwydd.
- Bod yn gallu cyfrannu at fywyd cymdeithasol ac i wneud gwahaniaeth.

8. A beth yw'r peth mwyaf positif yn eich bywyd?

- Y Teulu.
- Y mwynhad dw i'n cael o ymgysylltu gyda fy nheulu, a'r gefnogaeth dw i'n cael ganddynt.
- Y teulu, gwaith a fy nghartref.
- Byw mewn stryd o ffrindiau a chymdogion ardderchog, gyda'r mwyafrif ohonynt yn siarad Cymraeg.
- Y teulu a'r gwaith.
- Y teulu, y gymuned, natur.

9. Wrth feddwl am y newidiadau sydd eu hangen yn y gymuned, beth yw'r ffordd orau y gallwn ddefnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth sydd gennych chi fel unigolion?

- Bod pobl medrus yn y gymuned efallai yn gallu cynnig o’u harbenigedd a’u syniadau.
- Creu, mewn rhyw ffordd, platfform lle y gall y sgiliau a’r profiad hwnnw gydweithio gyda’i gilydd, ond nid mewn ffordd ormesol, ac yn sicr ddim drwy greu ‘pwyllgor’ arall.
- Mae’n anodd meddwl am unrhywbeth nad yw wedi ei brofi o’r blaen – mae arferion cymdeithasol yn newid ac, yn gyffredinol, nid yw pobl yn rhyngweithio yn yr un ffordd ag o’r blaen.
- Mae adborth oddiwrth pobl lleol yn hanfodol pan yn cynllunio / gweithredu newidiadau. Mae’n rhaid i’r Cyngor Cymuned Lleol ystyried syniadau’r aelodau oherwydd taw dyma’r bobl a bydd yn gweld budd o’r gwelliannau / newidiadau.
- Fel athro lleol mae gen i gysylltiadau gyda’r plant lleol a’u gofalwyr / rhieni.
- Byddwn yn hapus i gefnogi gweithgareddau cymunedol pan fydd mwy o amser gyda fi.
- Bydd hyn yn dibynnu ar y Cynllun Datblygu, a chysylltu â’r unigolion perthnasol i wireddu’r gwaith yma.
- Mae datgysylltiad rhwng pobl oherwydd eu hoedran. Byddai’n fuddiol i ddatblygu prosiectau pontio’r cenedlaethau h.y. yr henoed a phlant ysgol.

10. Sut gallwn ni eich helpu chi i wneud hyn?

- Darparu gwybodaeth cyson a chlr.
- Cyfathrebu’r Cynllun i’r gymuned mewn ffordd effeithiol a chyflwyno gwybodaeth am y cynnydd a wneir.
- Hysbysebu effeithiol i ennyn cefnogaeth.
- Mae plannu dolydd o flodau gwyllt a basgedi crog yn ennyn ymdeimlad o falchder yn amgylchedd gorfforol ein cymunedau.

11. Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill ynghylch dyfodol Cwmaman?

- Diogelwch ar y ffordd – mwy o linellau melyn dwbl a wardeiniaid traffig lleol.
- Mae newid yn anochel ond hefyd yn gatalydd i newid bywydau pobl er gwell.
- Un cam positif byddai dod â’r ‘cystadlu’ rhwng Glanamau a Garnant i ben - er enghraifft cynnal carnifal yn y Cae Pêl-droed ym Mharc Grenig ac un arall yn y Parc Rygbi ym Mharc Cwmaman.
- Mae’r Cyngor Cymuned yn flaengar ac wedi llwyddo i wneud llawer o waith adfywio yng Nghwmaman.
- Mae Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd Garnant yn un o’r datblygiadau llwyddiannus sy’n cynnig lleoliad aml-bwrpas a all fod yn gartref i ardal chwarae i blant a chwaraeon cystadleuol. Mae’r cyfleuster hwn yn annog pobl o bob oedran i gymryd rhan.
- Mae ein hunaniaeth Cymreig o dan fygythiad oherwydd y mewnlifiad o bobl sy’n mudo i’r ardal, heb fod ganddynt ddi-ddordeb yn ein hetifeddiaeth a/neu’n traddodiadau.
- Gwneud Jonathan Edwards (Plaid) yn rhan o’r fenter hon fel ei fod yn deall y problemau cyfredol a safbwynt y gymuned yn well, a chefnogi’r cyngor lleol gydag adnoddau posibl.
- Creu swyddi.
- Mae angen dathlu ein llwyddiannau blaenorol a chynllunio ffordd ymlaen a fydd yn rthoi gobaith i bobl lleol.
- Café cymunedol.

- Taclo anfantais cymunedol a thlodi.
- Problemau traffig mawr – mae'r heol fawr yn gul iawn mewn sawl man ac y gwneud gyrru'n beryglus.
- Mae'r golygfeydd yn lleol yn wych – efallai nad yw hyn bob amser yn cael ei werhfawrogi, felly mae angen codi ymwybyddiaeth o'r manteision o "fynd allan" a bod yn fwy gwerthfawrogol o natur.
- Trueni nad yw Swyddfa'r Post wedi'i lleoli yn y Ganolfan Gymunedol.
- Mae angen mynd i'r afael â doluriau llygad yn yr ardal megis adeiladau gwag e.e. Neuadd y Gweithwyr
- Bach yw cyfraniad yr henoed i ddyfodol Cwmaman gan ein bod yn teimlo bod dyfodol yr ardal yn nwylo'r genhedlaeth ifanc.
- Dathlu ac amlygu ein hasedau niferus.

4.4 Grwpiau Demograffig – Data Ansoddol

4.4.1 Plant a Phobl Ifanc

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

- Grŵp Ffocws Disgyblion Ysgol Y Bedol - 24 disgybl (Mawrth 14^{eg} 2017)
 - Digwyddiad Grŵp Gwneuthurwyr CA4 – 14 disgybl (Chwefror 16^{eg} 2017)
 - Ymgysylltu arlein – Facebook/Twitter
- Rhagor o lefydd i blant i chwarae dan do gydag arweinyddion chwarae megis Parc Sglefrio Dan Do lle mae'n bosibl llogi esgidiau sglefrio a beiciau
 - Canolfan Hamdden Anferth i blant ac oedolion i gadw'n heini
 - Spa lleol i gynnig triniaethau amrywiol e.e. adweitheg i helpu'r henoed deimlo'n well ac i gwrdd â phobl newydd; spa i blant o dan 12 oed
 - Dosbarthiadau crefft i wneud pethau ac i fod yn fwy creadigol a chwrdd â ffrindiau, toddi teiars a gwneud pethau allan ohonynt i addurno'r parciau ac i wneud tedi bêrs a chasau pensiliau anferth
 - McDonalds a KFC oherwydd nid yw teuluoedd yn gallu gwastraffu petrol i yrru i Cross Hands, a gallai'r plant gerdded i dai bwyta lleol
 - Gwell parciau oherwydd mae'r rhai presennol yn ofnadwy, a does dim gwerth chwarae ynddynt, a parciau mwy o faint i redeg ynddynt
 - Does dim digon o dafarndai a thai bwyta i rieni, a does dim byd iddyn nhw ei wneud yma
 - Mwy o weithgareddau i blant yn yr ysgol, discos
 - Mwy o glybiau ieuenctid
 - Gwell Cartrefi Preswyl a Chanolfannau Dydd i'r henoed – does dim digon o le i bawb
 - Ysgol Ganu/ Drama a Dawns i gael gwell gyrfa yn y dyfodol
 - Mwy o gyfleoedd i ymarfer corf, pêl-rhwyd a mwy o grwpiau pêl-droed, clybiau gymnasteg, marchogaeth
 - Dringo creigiau gyda meysydd chwarae concrit
 - Mwy o gymorth technegol i rieni
 - Pwll Nofio gyda sleid hydro a pheiriant tonnau – mae rhai pobl heb drafnidiaeth a ddim yn gallu cyrraedd Rhydaman
 - Cysgodfan i'r Dyn Lolipop
 - Gwell siopau a siopau antîcs, siopau dillad, siopau teganau, siopau siocled a siop anifeiliaid anwes
 - Bws mini i'r bobl lleol gael mynd i siopa
 - Gwasanaeth cyflenwi i ddod â'r siopa i'r tŷ
 - Sinema Awyr Agored
 - Amgueddfa Hanes Lleol
 - Neuadd Bingo Leol
 - Bar Chwaraeon yn dangos ymrysonnau bocsiio ayyb. Byrddau Pŵl

- Clwb Criced
- Mwy o swyddi i rieni
- Pobl yn ymweld â'r henoed
- Gwell mynediad ar gyfer yr anabl a mwy o rampau mynediad
- Maes Gwersylla lleol
- Mwy o ddsbarthiadau yn yr ysgol h.y. celf, dawns a chrochenwaith
- Llai o graffiti
- Mwy o gadeiriau olwyn am ddim i'r henoed
- Mwy o glybiau ac ysgolion lleol i'r anabl
- Cerdded cŵn ar ran y rhai sy'n methu gwneud hynny
- Garddio a mwy o flodau
- Mae Parc Grenig yn ofnadwy
- Stiwdio Gerdd
- Parc Thema, Parc Trampolîn
- *Play Zone*, fel nad oes rhaid teithio i Abertawe
- Llwybr antur newydd
- Canolfan Gelfyddydau a Llawr Sglefrio lâ newydd

4.4.2 Staff Addysgu

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

- Grŵp Ffocws Staff Ysgol Y Bedol - 8 aelod (Ebrill 3^{ydd} 2017)
 - Ymgysylltu Arlein (Facebook/Twitter)
 - Ymchwil yn y Sector Cynradd ac Uwchradd
 - Cyfarfodydd un-i-un
- Roedd y staff yn teimlo bod ganddynt cefnogaeth llawn y rhieni lleol, eu bod yn gyffredinol gefnogol o'r ysgol ac yn falch iawn ei fod ar gael yn y gymuned.
 - Mae hyd yn oed y teuluoedd hynny a ystyrir yn "broblem" neu'n "anodd" yn dangos parch tuag at y staff ar bob achlysur
 - Mae'r gymuned yn dryloyw ac yn onest iawn ynghylch ei anawsterau a'i asedau
 - Yn gyffredinol, mae pobl yn edrych ar ôl ei gilydd, ac yn gefnogol o'i gilydd
 - Mae'r gymuned yn gyfeillgar ac yn groesawgar iawn, ac yn cefnogi gweithgareddau allgyrsiol lle bo hynny'n bosibl e.e y Ffair Haf
 - Mae gan lawer o rieni (tua 80%) broblemau ynghylch diffyg hyder. Mae'r ysgol yn annog y rhieni i ymgysylltu ac i gymryd rhan ac mae hynny'n eu helpu i fagu hyder a hunan-barch.
 - Mae tlodi plant ac anfantais gymdeithasol yn cynyddu'n gyflym ac mae'r staff yn darparu anrhegion Nadolig i'r plant. Mae'r staff hefyd yn hyrwyddo cynllun lle y maen nhw'n dod ag eitemau cartref nad oes bellach eu hangen e.e. cynfasau gwely i'r ysgol i'w cyflwyno i deuluoedd sydd heb eitemau hanfodol o'r math.
 - Nid oes cynllun cydgysylltiedig, cydlynusyn ei lei i daclo tlodi.
 - Mae'r plant yn gyfeillgar ac yn hyfryd i weithio gyda, hyd yn oed y rhai sy'n dod o deuluoedd anweithredol gan fod yr ysgol yn achubiaeth iddynt.
 - Mae llawer o blant yn dod i'r ysgol yn newynog; mae'r staff yn ymwybodol o'r rhain ac yn gwneud yn siwr eu bod yn bwyta brecwast da yng nghlwb brecwast yr ysgol. Mae hyn yn iachawdwriaeth i lawer.
 - Mae llawer o'r plant ar y gofrestr plant mewn perygl, gan fod canran uchel o'r rhieni yn defnyddio cyffuriau. Mae rhai o'r plant yn hwyr yn dod i'r ysgol ac yn cyrraedd gyda rhieni sydd o dan ddylanwad cyffuriau / alcohol. Mae gan y staff berthynas dda gyda'r rhieni hyn er budd y plant. Mae hyn yn cael ei weld o bwys sylfaenol; yn aml, yr ysgol yw 'r unig gysylltiad sydd gan y rhieni â sefydliad cymdeithasol.
 - Byddai'n bosibl datblygu prosiect lleol sy'n cynnig cefnogaeth hanfodol mewn sefyllfaoedd o'r fath ar gyfer rhieni nad ydynt yn gallu cael mynediad at yr ymyrraeth angenrheidiol gan y gwasanaethau statudol.

- Mae'r staff yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i'r plant hynny sy'n byw gyda theuluoedd anweithredol a sydd, o bosibl, yn gwneud yn dda yn yr ysgol.
- O ystyried sefyllfa gartref y plant hyn, mae eu gwytnwch yn rhyfeddol.
- Mae traean o'r plant yn derbyn pryddau bwyd am ddim.
- Codwyd pryderon ynghylch y berthynas sy'n bodoli rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r ysgol, ac yn sicr mae lle i wella. Mae materion yn cael eu riportio ond nid yn cael eu dilyn i fyny, ac mae pryderon bod plant yn llithro drwy rhwydi biwrocraidaidd oherwydd bod y gwasanaethau cynnal ddim yn ddigon da. Mae'r ysgol wedi ceisio, ac yn dal i geisio, i wella'r sefyllfa annerbyniol hon, ond mae'r sefyllfa'n gwaethygu.
- Mae'r cyfleusterau cymunedol yn wych ond, yn anffodus, nid yw ochr gymunedol yr ysgol yn gweld llawer o ddefnydd, a nid yw'n cael ei ddefnyddio i'w lawn gapasiti. Mae'r gweithgareddau presennol yn cynnwys: grŵp rhieni, campfa, llyfrgell, meddygfa'r heddlu a chlwb cinio i'r henoed. Nid yw'r Neuadd Gymunedol a'r ystafelloedd cyfarfod amrywiol yn cael defnydd llawn. Yn y gorffennol, cyflogwyd gweithwyr cymunedol yn yr ysgol ond doedd hyn byth yn llwyddiant mawr. Mae angen Swyddog Datblygu Cymunedol cymwys sy'n meddu ar yr holl sgiliau i ddod â'r gymuned at ei gilydd i ddatblygu mentrau a fydd yn gynaliadwy yn y tymor hir.
- Hoffai'r staff feithrin cysylltiadau agosach gyda'r gymuned ehangach, ond yn deall bod hyn y ddibynol ar adnoddau digonol.
- Mae'r staff yn falch o "Wynebau Cyfeillgar", sef grŵp o rieni a sefydlwyd i gwrdd yn yr ysgol unwaith yr wythnos i gynnig cefnogaeth cydfuddiannol, ac i leihau arwahanrwydd rhieni ifanc neu unrhywun sydd am ymuno â'r grŵp.
- Mae'r staff o'r farn bod angen datblygu'r grŵp hwn gan fod iddo botensial mawr; gyda'r gefnogaeth iawn, gallai aelodau'r grŵp ddatblygu i fod yn wirfoddolwyr cymunedol gweithredol.
- O ran materion gofal plant yn gyffredinol, mae'r staff yn credu'n gryf bod ymyrraeth gynnar yn allweddol ond bod Rhaglenni'r Llywodraeth yn mynd a dod a bod angen cynnal y gwaith yn yr hir dymor.
- Ni does digon o "gefnogaeth o'r math cywir" ar gael i rieni sydd yn wynebu problemau, ac mae angen datblygu mentrau lleol lle bydd y rhieni yn cymryd perchnogaeth o'r broses.
- Mae rhai o'r Cynghorwyr lleol wedi bod yn gefnogol iawn o ddatblygiad yr ysgol.
- Nid yw'r Ardd Gymunedol yn cael digon o ddefnydd, ac mae diffyg ymwybyddiaeth lleol o sut gall yr ysgol fod o ddefnydd i'r gymuned lleol.
- Hefyd byddai'n bosibl gwella'r cysylltiadau gyda'r Ganolfan Deuluoedd.

4.4.3 Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwyr

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

- Grŵp Ffocws Rhieni – 12 rhiant (Ebrill 27^{ain} 2017)
- Arolwg Cartref
- Roedd y grŵp o'r farn bod y gymuned yn gymysgedd o bobl da, a bobl nad ydynt cystal, fel y gwelir ymhobman, ond ar y cyfan mae'r gymuned yn eithaf cyfeillgar ac yn croesawu mewnfudwyr i'r ardal.
- Roedd rhai o'r aelodau yn teimlo eu bod wedi dod i fyw mewn cymuned lle y mae'n aml yn arferol i ddod ar draws tair cenhedlaeth yn byw yn yr ardal, ond roeddent wedi cael eu "derbyn" i'r gymuned mewn ffordd bositif.
- Enw'r grŵp yw "Wynebau Cyfeillgar", ac mae'n croesawu unrhywun sydd am fynychu, nid dim ond rhieni plant ifanc.
- Heb y grŵp byddai'r aelodau yn teimlo'n ynysig ac yn agored i niwed.
- Yn y gorffennol maen nhw wedi mwynhau gwneud amrywiol bethau, a bydden nhw'n hoffi datblygu'r grŵp a chael mynediad at gyllid i ariannu teithiau yn ystod gwyliau'r haf, ymweld â gwahanol lefydd, mynd am bicnic, i'r sinema, i'r traeth, i'r theatre, i Fferm Folly ayyb.
- Roedd y grŵp yn cydnabod bod yr ardal yn hardd ond yn pryderi bod mannau poblogaidd lleol yn cael eu hesgeuluso e.e. y parciau lleol nad ydynt yn cael eu cynnal a chadw'n iawn. Mae llwybrau troed yn llawn tyfiant yn broblem, fel y mae'r trac beicio, llwybr glan yr afon, coed wedi syrthio ayyb.
- Mae hyd at 12 o bobl yn mynychu yn wythnosol; mae'r arweinydd / hyrwyddwr yn gwneud cacennau ac maen nhw'n yfed coffi ac yn sgwrsio onibai bod rhywbeth arbennig wedi'i gynllunio.

- Mae ceisiadau grant wedi cael eu cwblhau yn y gorffennol, ac mae'r grŵp wedi derbyn cymorth gan Zena sy'n gweithio yn Nerbynfaf'r ysgol.
- Roedd y grŵp yn unfrydol yn gofyn am Gafé Cymunedol y gall gofalwyr plant ifanc ei ddefnyddio, ac yn barod i ystyried y datblygiad café arfaethedig yn y Ganolfan Gymunedol.
- Cyfeiriwyd at Ganolfan y Mynydd Du ym Mrynaman fel esiampl o'r math o adnodd y byddai'r grŵp yn hoffi ei weld yng Nghwmaman.
- Soniwyd am y potensial i ddatblygu Prosiect Ailgylchu Celfi
- Byddai'r grŵp yn hoffi cael mynediad at gyfleoedd dysgu fel a ganlyn: defnyddio'r iaith Gymraeg, cymhwyster NVQ mewn gofal plant, hyfforddiant cyllidebu, cynllunio prydu bwyd, cyngor ar drafod arian, sgiliau ymdopi a lles, rheoli straen.
- Soniwyd bod angen grŵp cefnogi iselder ôl-enedigol
- Mae cyfleusterau cyhoeddus Glanaman mewn cyflwr gwael, ac nid ydynt yn cael eu glanhau, eu cynnal a chadw neu eu gwarchod.
- Byddai "Pad Sblasio" ym Mharc Garnant, yn debyg i'r un sydd ym Mharc Rhydaman, o fudd mawr i'r ardal gan y byddai'n gwella ansawdd bywyd plant lleol, yn enwedig yn ystod cyfnod yr haf.
- Yn gyffredinol mae'r ddarpariaeth chwarae i blant yn warthus, a dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor Tref lleol.
- Roedd llawer wedi datgan diddordeb mewn bod yn wirfoddolwyr cymunedol.
- Mae'r grŵp am archwilio i ddefnydd potensial yr hen Adain Famolaeth y tu ôl i Ysbyty Glanaman nad yw'n cael ei defnyddio bellach, gan y byddai'n gwneud "Canolfan i Ferched" ardderchog, i ffocysu ar eu lles, addysg ac iechyd.
- Mae'r grŵp yn awyddus i fod yn rhan o'r strategaeth at y dyfodol, ac yn barod i fynychu unrhyw gyfarfodydd i uwchleuo'r uchod.

4.4.4 Pobl Hŷn

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

- Grŵp Ffocws yr Henoed – 12 aelod (Mawrth 9^{fed} 2017)
- Arolwg Cartref
- Trafodaethau Unigol
- Mae trafndiaeth yn broblem fawr oherwydd bod llawer ohonon ni ddim yn gallu gyrru oherwydd salwch, ac yn dibynnu ar gael lift, felly byddai "Bws Cymunedol" yn gallu'n cludo i'r archfarchnad unwaith yr wythnos, ac yna bydden ni'n gallu bwyta cinio cyn dod adref.
- Mae llawer o'r henoed yn byw ar eu pennau eu hunain heb berthnasau yn byw gerllaw, ac y unig iawn ac yn profi arwahanrwydd.
- Hoffen nhw gael mwy o weithgareddau yn y cyfarfodydd wythnosol ond mae'n anodd trefnu.
- Mae mynychu yn wythnosol yn bwysig er mwyn cwrdd â phobl a chael sgwrs.
- Mae byw yng Nghwmaman yn fwy diogel na byw mewn trefi mawr.
- Nid yw oedran yn effeithio ar ganfyddiad y preswylwyr o deimlo'n ddiogel yn y gymuned (Arolwg Cartref).
- Diffyg parch oddiwrth bobl ifanc, ac mae eu hymddygiad yn cael ei weld yn broblem. (Arolwg Cartref).
- Mae pobl yngyfeillgar iawn, er nad ydynt yn adnabod llawer o'r mewnfudwyr y dyddiau yma.
- Mae'n anodd mynd i'r afael â hobiau a diddordebau oherwydd problemau golwg ac afiechyd cynyddol.
- Materion arwahanrwydd; ddim llawer o ymwelwyr.
- Dim digon o weithgareddau yn y Neuadd ym Mro Ryan. Nid yw'r preswylwyr lleol yn gwybod beth sy'n digwydd yno.
- Mae gan yr henoed broblemau gyda thrafnidiaeth; byddai cynllun car cymunedol i'w cludo o gwmpas o ddefnydd mawr.
- Colli perthnasau wrth i chi fynd yn hŷn, marwolaethau.
- Arwahanrwydd ac afiechyd a phroblemau symudedd.
- Gwneud defnydd o Hafan Croeso ym Maes y Glyn

- Mwy o ymwybyddiaeth o ddementia a help a chefnogaeth i ddiodefwyr a’u teuluoedd.
- Mwy o ddefnydd o’r Neuadd ym Mro Ryan, a mwy o gefnogaeth i breswylwyr Bro Ryan.
- Does dim gwaith i’r ifanc oddiar bod pyllau glo a diwydiannau metal Dyffryn Aman wedi dod i ben; mae angen datblygu prosiectau pontio’r cenedlaethau i ddod â’r hen a’r ifanc at ei gilydd.
- Mae angen codi ymwybyddiaeth o’r problemau sy’n wynebu ein cymuned a ffeindio rhyw ffordd o ddod â phobl ynghyd.
- Angen mwy o fynediad at wybodaeth ynghylch bod yn ddigymorth, a defnydd alcohol a chyffuriau.
- Mae diffyg diddordeb cyffredinol yn lles ein cymdogion, a diffyg parodrwydd i estyn allan.
- Mae angen cefnogi grwpiau diwylliannol ond oherwydd problemau trafndiaeth, mae’n anodd i’r henoed wneud hyn.
- Gallai’r henoed fod o ddefnydd yn hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg, ac i amlygu budd dwyieithrwydd.
- Cefnogi grwpiau / elusennau lleol sydd â chyfrifoldebau byd-eang, gan na allwn ‘anhofio’r bobl eraill sy’n byw yng ngweddill y byd’.
- Helpu pobl sydd ar gyflog isel gyda Banciau Bwyd.
- Mwy o grwpiau crefft a gwau, gyda chynlluniau gwirfoddoli a allai ymweld â’r henoed yn eu cartrefi.
- Warden llawn-amser ym Mro Ryan.
- Mae’n bwysig cadw diddordebau a chadw ‘mlaen i symud.
- Clwb bowlio i’r byddar a’r dall.
- Diffyg cefnogaeth i bobl sy’n rhannol ddall.
- Gwirfoddolwyr i ymweld â phobl yn eu cartrefi i gael sgwrs ac i helpu lleddfu unigrwydd.
- Cadw’r lawntiau a’r cloddiau’n daclus.
- Dosbarthiadau bwyta’n iach.
- Angen mwy o weithgareddau, digwyddiadau a threfnu diwrnodau i ffwrdd.
- Meinciau ar ochr y ffordd fel bod yr henoed yn gallu cymryd seibiant tra’n cerdded, er enghraifft o Grenig i Sgwâr Glanamau.
- Bws mini /trafnidiaeth gymunedol i’r henoed.
- Does neb yn gwrando ar yr henoed e.e. cafodd blwch post ei dynnu i ffwrdd ar ôl iddo fod yn yr unfan am dros 100 mlynedd. Nid yw’r henoed yn gallu cerdded i fynu’r rhiw i bostio llythyron ym Mro Ryan (lleoliad newydd y blwch post).

4.4.5 Iechyd Meddwl

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

- Cyfarfodydd Grŵp Ffocws (Mehefin 5^{ed}, Gorffennaf 31^{ain}, Awst 8^{fed})
- Cyfarfodydd Unigol (Mai 16^{eg})
- Datblygu, ehangu a chynyddu mynediad ac adnoddau i sicrhau dyfodol cynaliadwy Shadows
- Sefydlu rhwydwaith gefnogi “y tu allan i oriau” dros y penwythnos i ddefnyddwyr Shadows ac unrhywun sy’n dioddef problemau iechyd meddwl.
- Darparu cyfleoedd dysgu i’r defnyddwyr presennol ar “Wirfoddoli”, fel eu bod yn gallu cymryd rhan a helpu cefnogi rhedeg yr adnodd tu allan i oriau.
- Adeiladu ar, a defnyddio, sgiliau bobl lleol i helpu sefydlu Shadows fel darpariaeth unigryw i bawb sy’n profi problemau iechyd meddwl a’u gofalwyr / teuluoedd.
- Codi ymwybyddiaeth nid yn unig o Shadows ond o broblemau iechyd meddwl yn gyffredinol.
- Hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth a bod yn fwy agored a thryloyw ynghylch iechyd meddwl a’i effaith ar unigolion a theuluoedd.
- Cynyddu’r ddarpariaeth Shadows i 5 diwrnod yr wythnos ac ar y penwythnosau.
- Cynyddu’r cysylltiad wyneb-i-wyneb o ystyried y diffyg cefnogaeth statudol sydd ar gael.
- Cynyddu’r cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau Shadows.
- Darparu cefnogaeth i gael mynediad at gyfleoedd ariannu.
- Trefnu cynhadledd / digwyddiadau rhwydweithio lleol i ‘normaleiddio’ materion iechyd meddwl ac i ffocysu ar

- fodel gwella sy'n fwy cymdeithasol nag yw'n feddygol.
- Hyrwyddo a marchnata natur unigrwy Shadows fel menter sy'n hunan-ddibynol, gyda'r aelodau yn cynnig cefnogaeth i'w gilydd yn annibynol o unrhyw ymyrraeth allanol.
- Datblygu ymhellach cysylltiadau gyda mentrau eraill tebyg a gyda'r meddygfeydd lleol.
- Sefydlu adnodd/ llyfrgell i ddefnyddwyr.
- Darparu hyfforddiant ac addysg barhaus mewn ymwybyddiaeth iechyd meddwl.

4.4.6 Anabledd, Nam ar y Synhwyrac ac Anghenion Ychwanegol

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

➤ Grŵp ffocws Anabledd (Mawrth 22^{ain} 2017)

- Mae Canolfan Gymunedol Cwmaman mewn lleoliad da ac yn hygyrch ar gyfer pobl anabl; llwybrau bysiau, maes parcio mawr ac yn ganolog yn ardal Dyffryn Aman.
- Mae'r adeilad yn addas ar gyfer mynediad i'r anabl gan fod iddo ddrysau llydan a lifft yn rhoi mynediad i'r llawr cyntaf.
- Mae gofod y Gweithdy Cymunedol yn ddelfrydol gan ei fod ar un lefel ac yn hygyrch iawn – hefyd mae wedi'i leoli drws nesaf i Gofal Aman.
- Roedd llawer o'r rhai a oedd yn bresennol yn ymddiddori mewn celf a thechnoleg, ond yn cael hi'n anodd i ymgysylltu â grwpiau sy'n cynnig y math yma o weithgaredd gan eu bod wedi'u lleoli yn bennaf yn Abertawe neu yng Nghaerfyrddin.
- Roedd pawb a oedd yn bresennol yn gytûn ei bod hi'n bwysig bod pobl anabl yn gallu cael mynediad at eu hobiau ar eu pennau eu hunain lle bo hynny'n bosibl, a ddim yn gorfod dibynnu ar gael lifft neu gydymaith drwy'r amser.
- Roedd llawer o aelodau anabl y grŵp yn teimlo'n euog pan yn gwneud y pethau y maen nhw'n hoffi, oherwydd nid oedd eu gofalwr neu gydymaith yn hoff o'r weithgaredd dan sylw. Byddai cael dewis o weithgareddau mewn un adeilad, ynghyd â chafé gyda chysylltiad â'r rhyngwyd, yn caniatáu i'r gofalwr neu gydymaith ymlacio neu i wneud rhywbeth arall tra'n treulio amser yno.
- Roedd llawer o'r rhai a oedd yn bresennol sy'n gallu cael mynediad i wasanaethau heb gymorth yn cytuno bod diffyg cyfleoedd iddynt a'u teuluoedd i gymdeithasu; mae angen gweithgareddau lle y gall pobl â phroblemau tebyg ddod at ei gilydd i rannu eu profiadau.
- Pan yn sôn am gyfleoedd i wirfoddoli dywedodd 12 person, a oedd yn dioddef amrywiol anableddau, eu bod yn gallu gwirfoddoli i helpu bobl gyda'u problemau TGCh. Byddai 6 ohonynt yn barod i helpu grŵp codio yr ieuenctid a byddai 8 person yn hapus i ddysgu eraill sut i ddefnyddio TGCh. Roedd pob un yn gweld hyn yn gyfle da i deimlo eu bod yn cyfrannu rhywbeth i'w cymuned.
- Cafodd ei awgrymu y gallai'r café gael ei ddefnyddio i drefnu prynhawnau ymlacio i ofalwyr; byddent yn gallu ymlacio, cymdeithasu a derbyn gwybodaeth oddiwrth amrywiol asiantaethau.
- Roedd llawer yn poeni y byddai'r prosiect yn cael ei weld fel un i bobl anabl yn unig, gan nad yw cymunedau cyfan bellach yn dod at ei gilydd; mae gormod o 'rannu pobl i focsys'.
- Roedd tua hanner o'r rhai a oedd yn bresennol yn dweud eu bod yn gwneud defnydd rheolaidd o'r parc tu ôl i'r Ganolfan, a byddai'r café yn rhywle iddynt fynd cyn, neu wedi, iddynt ddefnyddio'r parc.
- Awgrymwyd y gallai'r bobl sy'n cael mynediad at y cyfleusterau celf a chreu gynnal arddangosfa neu ryw fath o arwerthiant i godi arian i'w helusennau, ac i helpu newid canfyddiad pobl o anabledd.
- Roedd llawer o'r gofalwyr ifancach a oedd yn bresennol (12 person) yn dweud eu bod yn cael hi'n anodd ar adegau i wneud eu gwaith ysgol / coleg pan oedd yr aelod teulu yn dost. Maen nhw'n cael hi'n anodd i ganolbwyntio ar waith yn y cartref. Roeddent yn meddwl bod y syniad o Ganolfan – gyda chyfrifiaduron, y rhyngwyd a gofod café – lle y gallent fynd ar unrhyw adeg - yn un da.
- Awgrymwyd y byddai'n bosibl darparu tiwtoriaid i helpu gofalwyr ifancach gyda'u gwaith ar bynciau sy'n berthnasol i'r prosiect: TGCh, Celf, Drama, Ieithoedd a Dylunio a Thechnoleg.
- Roedd pawb o'r farn bod defnyddio'r Ganolfan ar gyfer digwyddiadau codi arian i helpu prosiectau cymunedol eraill yn ased go-iawn. Dywedodd llawer y byddent yn awyddus i helpu gyda digwyddiadau tebyg.

- Mae'r ffaith bod y Ganolfan wedi'i lleoli drws nesaf i Gofal Aman (canolfan ddydd i oedolion ifanc sy'n dioddef gydag Awtistiaeth ac anghenion ychwanegol eraill) hefyd yn cael ei gweld yn fantais. Mae llawer o'r bobl hyn yn meddu ar broblemau ymddygiad, felly mae'r gallu i ddychwelyd i'r Ganolfan ddydd pan mae angen gwneud hynny yn cael ei ystyried yn beth da.
- Ynghylch y mater o gael mynediad at wasanaethau roedd pawb a oedd yn bresennol yn credu bod y gallu i gael mynediad at wasanaethau yn y Ganolfan o fudd mawr. Y prif reswm a roddwyd gan y bobl anabl oedd eu bod yn gallu gwneud llawer o bethau mewn un lleoliad, ar ôl un daith, a chael mynediad at ddosbarthiadau neu glybiau a chael y wybodaeth sydd ei angen arnynt. O ran y gofalwyr, roedden nhw o'r farn ei bod hi'n bwysig bod modd cael mynediad at wasanaethau mewn lleoliad cymunedol, ac nid mewn rhywle ffurfiol iawn, neu "gydag arwyddion mawr ar y tu allan yn dweud wrth bawb paham 'rydych yn mynd yno". Roedd y gofalwyr ifanc yn gadarn o blaid hyn, gan ddweud eu bod yn gallu galw yn y café gyda'u ffrindiau a derbyn gwybodaeth ar yr un pryd.
- Mae anabledd y cael ei weld fel rhwystr i wirfoddoli yn y gymuned – er gwaetha'r ffaith bod ganddynt sgiliau i rannu a'r amser i'w rhannu.

4.4.7 Grwpiau Diwylliannol

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

- Grŵp Ffocws Diwylliannol - 35 aelod (Mawrth 22^{ain} 2017)
- Arolwg Cartref
- Arolwg Canolfan Gymunedol

- Roedd consyrn cyffredinol ynghylch diifyg cyfleoedd yn yr ardal, a'r ffordd mae'r gymuned wedi ymrannu dros y blynyddoedd.
- Mae'r gymuned wedi colli ei pharodrwydd gynhenid i "edrych ar ôl ein gilydd" fel yn y dyddiau a fu.
- Mae mewfudo wedi cynyddu ac, o ganlyniad, mae'r gymuned yn wahanol iawn.
- Roedd 'nerfusrwydd' ynghylch 'dw i ddim y nabod pobl fel roeddwn yn arfer'. Ar hyn o bryd, does dim ymdeimlad o 'gymuned glos'.
- Roedd y grŵp am gydnabod traddodiad hirsefydlog ymdrech wirfoddol arweinyddion lleol a gweithredwyr cymunedol nad ydynt bellach yn ein plith, a mynegwyd consyrn ynghylch yr anabledd i gynnal y lefel o ymroddiad a ddangoswyd yn y gorffennol.
- Roedd hefyd cydnabyddiaeth o'r talent diwylliannol cyfoethog, yn y presennol ac yn y gorffennol.
- Mae angen glynu at draddodiadau hirsefydlog e.e. Plygain Hen Fethel
- Cydnabyddiaeth o'r golygfeydd a chefn gwlad, a'r mynyddoedd a'u prydfferthwch.
- Mae llwybr glan yr afon yn boblogaidd, er nad yw'n cael ei gynnal a chadw'n ddigonol gan y Cyngor lleol.
- Cymuned Gymraeg. Roedd "ethos Gymreig" Cwmaman yn bwysig i aelodau'r grŵp; maen nhw'n falch iawn o'u hetifeddiaeth, eu hanes a'u hiaith.
- Roedd y grŵp yn cydnabod y difaterwch cyffredinol mewn gwleidyddiaeth leol a'r angen am well ymgysylltu cymunedol, yn enwedig ymysg yr ifanc, a symudiad posibl yn y ffordd y mae Cyngor y Dref yn ymgysylltu â'r gymuned.
- Mynegwyd consyrn ynghylch diffyg cyfleoedd, prentisiaethau a chymorth busnes sydd ar gael i bobl ifanc.
- Does dim buddsoddi mewnol, mae diweithdra, diffyg cysylltiadau trafniadaeth digonol, dim rhagolygon i'r ifanc. Pam ddylen nhw aros a dewis byw yma pan nad oes unrhyw waith ayyb?
- Mae clybiau ieuenctid fel y'i gelwir yn perthyn i'r gorffennol. Does dim digon o fentrau /prosiectau cymunedol i bobl ifanc ymwneud â nhw.
- Roedd llawer yn poeni ynghylch diffyg argaeledd tai boddhaol ac yn poeni bod "teuluoedd â phroblemau" yn cael eu lleoli yn yr un man.
- Mae angen trwsio tai, mae nhw'n edrych yn ddi-raen, heb barch. Mae gormod o dai gwag, mae arwyddion 'ar werth' ymhobman. Mae eiddo'r Gymdeithas Dai Leol yn llawn bobl sy'n gaeth i gyffuriau, yn creu ofn ymysg bobl lleol.
- Mae peth ymddygiad gwrth-gymdeithasol.
- Mae angen datblygu gweithdai lleol sy'n cynnig prentisiaethau i bobl lle y gallant wneud pethau – nid yw Prifysgol a dyfodol academiaidd yn siwtio pob person ifanc.
- Mae angen datblygu prosiectau pontio'r cenedlaethau i ddod â'r ifanc a'r henoed at ei gilydd.
- Mae diffyg consyrn cyffredinol am breswylwyr lleol.
- Does dim – megis y theatr, sioeau cerdd, dramaau - yn digwydd ar y penwythnos.
- Mae angen i'r Ganolfan Gymunedol wella ei darpariaeth a chyflwyno arlwy sy'n ddeniadol i'r gymuned ehangach, a nid yn unig i ddarparu yr un hen bethau.
- Mae'r heolydd mewn cyflwr ofnadwy.
- Mae'r capeli yn cau ac mae'r tafarndai lleol yn ddiiflas. Does 'na unman 'neis' i gymdeithasu.
- Does yma ddim adeilad diwylliannol trawiadol. Roedd y grŵp yn cydnabod yr ymdrechion blaenorol i adfywio Capel Brynseion at y pwrpas hwn.
- Mynegwyd consyrn ynghylch gofal i'r henoed – mae'n annigonol ac mae llawer yn dioddef arwahanrwydd.
- Yn falch bod Ysbyty Glanaman yn dal i fodoli ond yn pryderi ynghylch ei gynaliadwyedd at y dyfodol.
- Byddai'n bosibl gwella gofal iechyd. Mae'r mynediad at feddygon lleol yn annigonol.
- Does dim tŷ bwyta /café cymunedol neis. Mae café Pantycelyn yn rhy fach.
- Mae'r gwelliannau ffisegol yn ddi-raen; nid yw'r parciau, y llwybr beicio, llwybr glan yr afon yn cael eu cynnal a chadw'n dda – y toiledau ar Sgwâr Glanaman.

- Yn cydnabod bod problemau enfawr yn lleol gyda phobl yn gaeth i gyffuriau a bod diffyg gwasanaethau cefnogi addas a chyfleoedd ailsefydlu.
- Mae pobl yn llai parod i “gymryd rhan”.
- Mae adeiladau gwag heb adnoddau digonol, nid ydynt yn cael eu defnyddio’n ddigonol, mae angen defnyddio mwy o asedau’r gymuned.
- Mae anfantais cymdeithasol ar gynnydd, anghydraddoldeb ariannol yn gyffredin ac mae teuluoedd mewn tlodi. Ond mae llawer o breswylwyr “dosbarth canol” hefyd, felly mae Glanaman yn cynnwys cymysgedd o bobl.
- Does dim banciau lleol, a nawr mae problemau gyda’r swyddfa bost leol. Mae hyn yn broblem i bobl hŷn.
- Byddai’n wych pe byddai’n bosibl ailagor y rheilffordd.
- Cŵn yn baeddu.
- Gwelir mwy o ddarpariaeth creadigol yn beth da ac yn ffordd o ddod â chymunedau / pobl at ei gilydd.
- Ystyrir bod mynediad at gyfleusterau / gwasanaethau yn wael ar hyn o bryd – mae popeth yn mynd i Lanelli ac i Gaerfyrddin, er gwaetha’r ffaith nad yw mwyafrif poblogaeth y Sir yn byw yno.

Busnesau Lleol

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

➤ Cyfarfodydd Un-i-Un gyda Pherchnogion Busnesau

- Mae diffyg cynyddol o sgiliau ar draws yr ystod oedran – mae pobl ifanc heb sgiliau ymdopi/ hunan-reolaeth, tra bod bobl hŷn heb sgiliau technolegol.
- Mae datblygu busnesau newydd, ar raddfa fawr, yn y gymuned ac mewn ardaloedd cyfagos yn cael effaith mawr.
- Nid yw busnesau lleol yn cael eu hystyried pan fydd caniatâd cynllunio ar gyfer mewnfudwyr yn cael ei ystyried.
- Nid yw bobl lleol yn rhoi cymaint o gefnogaeth i fusnesau lleol y dyddiau hyn – gwerthiant arlein, opsiynau rhatach a gynigir gan siopau mawr ayyb.
- Nid yw busnesau yn y sectorau nad ydynt yn wynebu’r cyhoedd yn gwybod sut i ymgysylltu â’r gymuned leol.
- Mae mynediad at gyllid datblygu yn gyfyng iawn, ac yn aml yn cael ei dargedu at y rhai sydd eisoes wedi derbyn blynyddoedd lawer o gefnogaeth.
- Cynnydd yn y boblogaeth – agweddau positif / negyddol.
- Buddsoddiad yn y cymoedd i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bob oedran.
- Diffyg cyfleoedd am brentisiaethau.
- Creu mentrau cymdeithasol bach.
- “Gofal yn y gymuned” cwbl integredig a ddarperir gan brosiectau Meddyg Teulu, fferyllfeydd a gofal cymdeithasol.
- Llai o gyllid i’r gwasanaeth fferyllfa yng Nghymru.
- Archfarchnadoedd “allan o’r dre” a siopau disgownt rhad.

4.4.8 Menter Iaith Bro Dinefwr.

Allbynnau Perthnasol Allweddol o:

➤ Cyfarfod Grŵp Ffocws

- Mae llawer o aelodau’r gymuned yn ddi-hyder pan yn siarad Cymraeg, ac nid yw dosbarthiadau Cymraeg lleol wedi bod yn llwyddiant oherwydd nad ydynt yn mynd i’r afael â’r mater hwn.
- Dylai fod “Menter Iaith” ym mhob cymuned.
- Mae angen codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru.
- Os yn bosibl, dylai siopau lleol ddefnyddio’r Gymraeg yn gyntaf wrth gyfarch cwsmeriaid.
- Poster Cymraeg mewn busnesau lleol.
- Dylai’r ysgol leol feddu ar Siarter Gymraeg fel arwydd o arfer dda.
- Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg mewn gweithleoedd lleol.
- Gweithiwr iaith Gymraeg ar gyfer Cwmaman yn unig.
- Datblygu prosiectau treftadaeth a chymdeithas hanes a chlybiau ffotograffiaeth cyfrwng Cymraeg.

- Mwy o nosweithiau cwis lleol i edrych ar hen ffotograffau ynghlyn â hanes, traddodiad a diwylliant lleol.
- Ymateb yn well i ddiddordebau pobl lleol a'r hyn a fydd yn helpu gyda chynaliadwydd yr iaith Gymraeg yng Nghwmaman yn y dyfodol.
- Sicrhau buddsoddiad digonol i hyrwyddo'r Gymraeg yn iawn.
- Datblygu "cyfle preswyl i ddysgu Cymraeg", o bosib yn y Ganolfan Adnoddau, i wella twristiaeth a buddsoddiad yn yr ardal, ac i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Sefydlu amrywiaeth o brosiectau hanes lleol ac etifeddiaeth megis hanes y Twrch Trwyth, a chael mynediad at arbenigedd haneswyr lleol e.e. Neville Anthony, a recordio cyfweiliadau un-i-un i hyrwyddo'r iaith gan ddefnyddio amrywiol dulliau gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.
- Mwy o ddefnydd o Glwb Golff Garnant i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Gwell defnydd o asedau lleol h.y. Castell Carreg Cennen, i ddenu bobl i'r gymuned.
- Mwy o gyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- Datblygu "Clwb Hwyl" i bobl ifanc yn y Ganolfan Gymunedol.
- Datblygu mwy o ddigwyddiadau i deuluoedd yn yr ardal, ac annog rhieni di-Gymraeg i gymryd rhan.
- Mae angen gwell hysbysebu / marchnata i gynyddu aelodaeth y grŵp lleol er mwyn gwella a chynyddu integreiddio.
- Mae'r diffyg cyffredinol o ymgysylltu cymunedol da gyda bobl lleol yn cael effaith negyddol ar gynyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.
- Datblygu mentrau iaith Cymraeg i blant ifanc a'u teuluoedd yn y Ganolfan Deuluoedd yn Garnant.
- Mae mewnfudwyr di-Gymraeg sydd yn anfodlon dysgu'r iaith Gymraeg yn fygythiad go-iawn.
- Mae diffyg brwdfrydedd cyffredinol i gofleidio diwylliant, etifeddiaeth a materion ieithyddol lleol – difaterwch.
- Dylai pawb sy'n symud i'r ardal dderbyn "Pecyn Croeso".
- Mae gan lawer o deuluoedd broblemau niferus ynghylch tlodi, anfantais gymdeithasol, bob yn gaeth i gyffuriau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol, ac nid yw dysgu Cymraeg neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth iddynt.
- Byddai prosiectau Cynhwysiant Digidol yn gallu helpu i gynyddu cysylltedd cymunedol ynghylch materion iaith.
- Sefydlu gorsaf radio Gymraeg leol a phapurau newydd llafar
- Café Cymunedol gydag amseroedd penodol yn cael eu neilltuo ar gyfer "awr goffi dysgwyr Cymraeg".
- Creu busnesau ba h i werthu cynnyrch o Gymru yn yr unedau ar Heol Tabernacl.
- Ystyried Neuadd y Gweithwyr fel Canolfan Dreftadaeth i Gwmaman, yn cynnwys amgueddfa hanes lleol, digwyddiadau i hyrwyddo diwylliant Cymru, gwerthu nwyddau o Gymru ayyb.

5 Arfarniad o Gyflwr Cyfredol yr Asedau

5.4 Yr Hen Focs Signalau

5.4.1 Ffisegol

Adeiladwyd yr adeilad hwn ar droad y ganrif pan gafodd y dyffryn ei agor er mwyn sefydlu pyllau glo yn yr ardal. Mae'r adeiladwaith yn cynnwys waliau solet 9 modfedd o drwch wedi'i adeiladu o frics, ffenestri ffrâm metal ar y llawr isaf a ffenestri codi llorweddol sy'n llithro ar y llawr cyntaf. Mae'r to o lechi ac wedi'i inswleiddio mewn manau.

5.4.2 Mynediad

Mae mynediad uniongyrchol i'r llawr isaf o risiau o'r heol gyfagos, ac i'r llawr cyntaf drwy staer pren allanol.

5.4.3 Addasiadau

Nid yw'r adeilad wedi cael ei addasu ers iddo gael ei ail-ddatblygu. Ar hyn o bryd, nid yw'n addas i'w ddefnyddio gan / rhoi mynediad i bobl sydd ag anabledd symudedd.

5.4.4 Yr ardal o gwmpas

Fel yr amlinellwyd yn adran 6.1, mae'r Bocs Signalau wedi'i leoli'n ganolog yn y gymuned ac er ei fod ger y rheilffordd, mae'r ardal hon yn cynnig golygfeydd hyfryd iawn. Er nad oes unrhyw ddarpariaeth parcio penodol ar gyfer yr adeilad, mae digonedd o ddarpariaeth parcio ar y stryd i ateb maint yr adeilad.

5.4.5 Cynnal a Chadw Hanfodol

Ers i'r adeilad gael ei ail-ddatblygu tua 25 mlynedd yn ôl, yn anffodus nid yw wedi gweld llawer o ddefnydd, ac felly erbyn hyn mae angen tipyn o waith cynnal a chadw arno i'w ddychwelyd i gyflwr da. Ar wahan i'r angen i newid darn o'r llawr ar y llawr isaf, ac i adnewyddu'r staer allanol, mae'r gweddill o'r gwaith sydd ei angen yn y lleoliad hwn yn cynnwys gwasanaethu'r cyfleusterau presennol ac addurno'r ffenestri, y drysau a'r arwynebau mewnol.

5.5 Y Ganolfan Gymunedol

5.5.1 Ffisegol

Adeiladwyd yr adeilad hwn ar droad y ganrif pan gafodd y dyffryn ei agor i sefydlu pyllau glo yn yr ardal. Cafodd y rhan wreiddiol o'r adeilad ei adeiladu o gymysgedd o gerrig a briciau, a'r estyniad, a adeiladwyd yn y 1970au hwyr, o adeiladwaith wal geudod. Mae'r mwyafrif o'r ffenestri yn yn yr adeilad yn rhai gwreiddiol; mae'r brif adran yn cynnwys ffenestri pren, a'r cyfan yn ffenestri sengl. Mae to yr adeilad wedi'i adeiladu o lechi, ac mae'r adeilad wedi'i insiwleiddio mewn manau. Gan fod yr adeilad wedi bod o dan reolaeth y Cyngor Sir yn y gorffennol mae mewn cyflwr gweddol, ond mae angen tipyn o waith uwchraddio i'w godi i safon modern, o ystyried effeithlonrwydd ynni a chynnal a chadw cyffredinol.

5.5.2 Mynediad

Mae'r mynediad i'r llawr isaf o'r grisiau oddiar yr heol gyfagos, ac mae mynediad i'r anabl trwy fynedfa ar yr ochr. Mae maes parcio cyhoeddus hwylus gerllaw.

5.5.3 Addasiadau

Mae'r adeilad wedi gweld peth addasu yn ddiweddar i wella mynediad mewnol yn yr adeilad. Mae hyn wedi cynnwys gosod lifft rhwng ardal y gegin a'r landin ar y llawr cyntaf.

5.5.4 Yr ardal o gwmpas

Mae'r Ganolfan Gymunedol wedi'i lleoli'n ganolog yn y gymuned gyda mynediad o'r maes parcio cyfagos, ac mae'r brif fynedfa ar Stryd Fawr Glanaman. Mae'r adeilad hefyd yn ffinio ar Barc Gelli Werdd sydd wedi'i leoli ar safle hen domen lo; mae'n ardal hyfryd iawn.

5.5.5 Cynnal a Chadw Hanfodol

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r adeilad mewn cyflwr gweddol ac nid oes angen gwaith cynnal a chadw hanfodol arno ar hyn o bryd. Serch hynny, mae angen tipyn o waith uwchraddio er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn parhau mewn defnydd cynaliadwy yn y gymuned.

5.6 Gweithdy Cymunedol

5.6.1 Ffisegol

Adeiladwyd yr adeilad i wasanaethu fel swyddfa i'r gwaith tun a sefydlwyd yn y gymuned yn y 19^{eg} ganrif. Pan ddaeth y diwydiant trwm i ben, daeth yr adeilad i ddwylo'r gymuned o dan reolaeth Cyngor Dosbarth Trefol Cwmaman, fel yr oedd ar y pryd. Adeiladwyd y rhan wreiddiol o'r adeilad o gymysgedd o gerrig a briciau, a'r estyniad, a adeiladwyd yn y 1970au hwyr, o adeiladwaith wal geudod. Mae'r holl ffenestri, sy' tua 20 mlwydd oed, wedi'u gwneud o uPVC. Mae to yr adeilad wedi'i wneud o lechi, ac mae wedi'i insiwleiddio'n rhannol. Mae'r adeilad mewn cyflwr gweddol, ond mae angen tipyn o waith uwchraddio i'w godi i safon modern, o ystyried effeithlonrwydd ynni a chynnal a chadw cyffredinol.

5.6.2 Mynediad

Mae'r mynediad i'r llawr isaf o'r heol gyfagos. Mae maes parcio cyhoeddus gerllaw.

5.6.3 Addasiadau

Mae'r adeilad wedi cael ei addasu'n rhannol yn ddiweddar i wella hygyrchedd yn yr adeilad, ond nid yw hyn wedi'i wneud i safon anabledd llawn.

5.6.4 Yr Ardal o gwmpas

Mae'r Gweithdy Cymunedol wedi'i leoli'n ganolog yn y gymuned gyda mynediad o'r maes parcio cyfagos, gyda'r brif fynedfa ar Heol yr Orsaf, Glanamau.

5.6.5 Cynnal a Chadw Hanfodol (Pob Opsiwn)

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r adeilad mewn cyflwr gweddol ac nid oes angen gwaith cynnal a chadw hanfodol arno ar hyn o bryd. Serch hynny, mae angen tipyn o waith uwchraddio er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn parhau mewn defnydd cynaliadwy yn y gymuned.

5.7 Y Ganolfan Adnoddau

5.7.1 Ffisegol

Cafodd yr adeilad ei adeiladu i wasanaethu fel Cwt Sgowtiaid yn y 1960au, ond gadawyd y lle'n wag am rai blynyddoedd ar ôl i sgwtio ddod i ben yn y gymuned. Yn fwy diweddar cafodd yr adeilad ei logi i Gyngor Ieuenctid Cwmaman; roedd y Cyngor yn llwyddiannus yn ei gais am grant o'r Loteri i newid yr adeilad i Ganolfan Adnoddau ar gyfer ieuenctid yr ardal, ac i ychwanegu bloc preswyl ar ffurf Byncws. Cafodd yr adeilad ei wella i safon weddol uchel, ond oherwydd natur y grŵp sy'n defnyddio'r adeilad, mae angen gwaith cynnal a chadw cyson arno. Adeiladwyd yr adeilad gwreiddiol gyda wal geudod, ac mae'r ychwanegiad wedi'i adeiladu o wal geudod a inswleiddiwyd. Mae'r holl ffenestri yn rhai plastig uPVC ac mae'r to wedi'i wneud o haenau dur a inswleiddiwyd. Mae'r adeilad mewn cyflwr gweddol.

5.7.2 Mynediad

Ceir mynediad at y llawr isaf o'r heol breifat gyfagos. Mae maes parcio preifat hwylus gerllaw.

5.7.3 Addasiadau

Cynlluniwyd yr adeilad i gwrdd â'r rheoliadau adeiladu a oedd mewn grym pan gafodd ei ail-ddatblygu, felly mae'n cwrdd â'r gofynion anabledd.

5.7.4 Yr Ardal o gwmpas

Mae'r Ganolfan Adnoddau wedi'i lleoli'n ganolog yn y gymuned gyda mynediad o'r maes parcio cyfagos, gyda'r brif fynedfa ar Heol yr Orsaf, Glanamau.

5.7.5 Cynnal a Chadw Hanfodol

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r adeilad mewn cyflwr gweddol ac nid oes angen gwaith cynnal a chadw hanfodol arno ar hyn o bryd.

5.8 Pafiliwn Bowlio

5.8.1 Ffisegol

Adeiladwyd y pafiliwn yn y 1980au ac mae wedi gwasanaethu anghenion y Clwb Bowlio tan yn ddiweddar, pan gafodd Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd (MUGA) ei datblygu ar y cyrtiau tenis gerllaw. Oherwydd y toriadau ariannol llym, a'r effaith y mae hynny wedi cael ar y gyllideb, dros y blynyddoedd diwethaf mae'r adeilad wedi' cael ei esgeuluso gan Gyngor Sir Gaerfyrddin. Y fwy diweddar, oherwydd rhai namau ar yr adeilad, mae peth gwaith adfer wedi'i wneud i wella safonau yn yr adnodd. Mae'r pafiliwn wedi'i adeiladu o adeiladwaith wal geudod, ac mae'r to o haenau dur a inswleiddiwyd yn rhannol. Mae'r adeilad mewn cyflwr gweddol.

5.8.2 Mynediad

Ceir mynediad at y llawr isaf o'r heol breifat gyfagos. Mae maes parcio preifat hwylus gerllaw.

5.8.3 Addasiadau

Nid yw'r adeilad wedi'i addasu at ddefnydd gan yr anabl.

5.8.4 Yr Ardal o gwmpas

Mae'r Pafiliwn Bowlio wedi'i leoli ger dau barc (Parc Cwmaman a Pharc Golwg yr Aman) yn y gymuned gyda mynediad o'r maes parcio cyfagos ac o'r brif fynedfa ar Heol yr Orsaf, Glanamau.

5.8.5 Cynnal a Chadw Hanfodol

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r adeilad mewn cyflwr gweddol ac nid oes angen gwaith cynnal a chadw hanfodol arno ar hyn o bryd.

6 Argymhellion

6.4 Yr Hen Focs Signalau



Mae'r Hen Focs Signalau yn manteisio ar fod wedi'i leoli'n agos at y Ganolfan Gymunedol, y Gweithdy Cymunedol a'r Ganolfan Adnoddau Ieuenctid. Mae'n cael ei ystyried yn adeilad eiconig yn y gymuned, ac yn un y mae llawer o'r preswylwyr am weld yn cael ei warchod. Serch hynny, dros y blynyddoedd pan nad oedd yn cael llawer o ddefnydd a chynnal a chadw, bu dirywiad yn ei gyflwr ac, erbyn hyn, mae angen gwaith strwythurol gweddol sylweddol arno i'w adfer, er mwyn iddo fod mewn cyflwr digon da i gel ei ddefnyddio'n gyson. Gan ei fod wedi'i gynllunio at bwrpas penodol iawn, mae'n anodd dod o hyd i ddefnydd amgen addas i'r adeilad. O bwys yn y cyswllt hwn yw'r ffaith taw'r staer allanol yw'r unig fynediad at y llawr cyntaf, a'r diffyg golau ddydd ar y llawr isaf.

Un nodwedd allweddol o'r adeilad yw cynllun pensaernïol y llawr cyntaf, gyda llawer o olau ddydd yn llifo drwy ei ffenestri mawr, y nenfydau agored, y lle tân a'r cysylltiad cryf gyda hanes y gymuned leol.

Gan ystyried y ffactorau uchod, a'r gofynion a nodwyd yn y gymuned, mae'r argymhellion cyffredinol canlynol yn cael eu gwneud:

- Bod yr adeilad yn cael ei gynnal a chadw a'i warchod fel nodwedd hanesyddol bwysig yn y gymuned.
- Bod gwedd allanol yr adeilad yn cael ei wella fel mater o flaenoriaeth i atal unrhyw ddirywiad pellach beth bynnag fydd defnydd yr adeilad yn y dyfodol.
- Bod ei berthnasedd hanesyddol yn cael ei ymchwilio a'i gofnodi, a bod hyn ar gael i'r cynhoedd, o bosib trwy gyfrwng archif arlein.



O ran yr argymhellion penodol ynghylch defnydd yr adeilad at y dyfodol, credir bod y canlynol yn cwrdd â gofynion y gymuned fel y'i mynegwyd yn ystod yr ymchwil a wnaethpwyd ar gyfer yr astudiaeth hon:

6.4.1 Gofod Swyddfa i Fusnes neu Fudiad sy'n Gymdeithasol Ymwybodol

Diffiniad: Gofod swyddfa fforddiadwy i fenter gymdeithasol newydd neu fudiad elusennol a fydd yn dod â budd i gymuned Cwmaman a'r ardaloedd cyfagos. Defnyddio'r llawr isaf ar gyfer storio ac efallai cegin, tŷ bach ac ystafell argraffu/ prosesu, a'r llawr cyntaf fel swyddfa ac ystafell gyfarfod.

Pethau angenrheidiol: Byddai angen gwaith adeiladu cyn defnyddio'r adeilad, a byddai peth o hyn sylweddol; gwaith gwydro, atgyweirio'r waliau cynnal, gwaith atal lleithder ayyb. Byddai hefyd angen uwchraddio'r gwasnaethau i'r adeilad, gan gynnwys y cyflenwad trydanol, dŵr a chyfathrebu/ llinellau ffôn.

Budd Cymunedol: Mae Cwmaman yn dioddef oherwydd nad oes llawer o fudiadau 3^{ydd} sector yn gweithio'n uniongyrchol yn y gymuned. Mae hefyd angen sicrhau bod yr adeilad yn hyfyw o ran costau at y dyfodol, er mwyn cynaliadwyedd yr adeilad a phrosiectau cymunedol ehangach. Hefyd, rhaid nodi bod y gymuned am gael mynediad at ofod gwaith fforddiadwy. Dylid ystyried y potensial am brosiect ar y cyd, wedi'i ddiffinio gan drefniadau tenantiaeth, rhwng mudiadau a leolir yn yr ased a Chyngor Tref Cwmaman; os byddai hyn bosibl, dylid defnyddio'r fath drefniant i fwyhau budd cymunedol.

Cyberthnasau: Mae'r datblygiad o ddarpariaethau lleol a welwyd yn ein prosiectau eraill, y rhai arfaethedig a'r rhai sydd ar waith, yn gosod y sylfeini am ragor o ymgysylltu gan y 3rd sector yn y gymuned. Bydd datblygu gofod defnyddiol i'r mudiadau hyn yn dod â chyfleoedd partneriaeth clir rhwng y Ganolfan Gymunedol, y Ganolfan Adnoddau Ieuenctid, y Ganolfan Deuluoedd a mudiadau o'r sector breifat fe Gofal Aman, a'r cyfan gyferbyn â'r Hen Focs Signalau. Bydd nifer cynyddol yr ymelwyr i'r ardal o fudd i fusnesau lleol ac, gan ddibynnu ar bwy yw'r tenant, cefnogaeth datblygu busnes uniongyrchol.

Heriau: Yr her fwyaf yw'r cyllid sydd ei angen i wneud yr atgyweirio strwythurol. Gan fod angen gwarchod yr adeilad rhag dirywio waeth beth yw'r defnydd ohono ni fyddai hyn yn cynyddu yn sylweddol y cyllid sydd ei angen. Dylid hefyd ystyried yr angen am fynediad i'r adeilad o staer allanol. Efallai bydd hyn yn achosi problem o ran mynediad i'r anabl, ac i rai defnyddwyr/ ymwelwyr a fyddai'n gweld hyn yn rhwystr e.e. bygis plant bach, yr henoed.

6.4.2 Gofod Celf – Stiwdio a Safle Cyfarpar

Diffiniad: Byddai'r HenFocs Signalau, a'i olau naturiol ardderchog, ei berthnasedd hanesyddol a'i bensaernïaeth /symboliaeth ysbrydoledig yn gwneud y tro yn iawn fel gofod gwaith celf. Byddai datblygiad posibl yn gallu cynnwys defnyddio'r llawr isaf ar gyfer storio a chyfarpar, a throï'r llawr cyntaf yn stiwdio ar gyfer hyd at 3 artist.

Pethau angenrheidiol: Y defnydd arfaethedig hwn yw efallai'r defnydd lleiaf cymhleth o ran y gwaith adeiladu sydd ei angen. Ar wahan i atgyweirio'r namau yr unig addasiadau a fyddai eu hangen yw adfer y gwasanaethau i'r adeilad a gosod y cyfarpar angenrheidiol.

Budd Cymunedol: Mae'r budd economaidd, cymdeithasol a lles sy'n dod o ddefnyddio celf mewn cymunedau wedi'i gofnodi'n helaeth. O ran yr effaith leol ar Gwmaman, mae'r celfyddydau (a gwneud, creu a crefft yn gyffredinol) wedi cael eu hadnabod fel rhan boblogaidd o'r ddarpariaeth bresennol a phosibl. Teimlir bod modd mynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd yn lleol (iechyd, iechyd meddwl, arwahanrwydd cymdeithasol ayyb) drwy integreiddio yn strategol i'r gymuned y celfyddydau a'r sector greadigol. Mae Cwmaman wedi'i leoli yn nalgylch 3 ysgol uwchradd, 2 ddarparwr Addysg Bellach a 3 ddarparwr Addysg Uwch sy'n cynnig pynciau celf/ creadigol llwyddiannus a phoblogaidd. Mae datblygu'r ddarpariaeth gelf yn lleol yn cael ei weld fel cyflwyno amgylchedd gefnogol i raddedigion diweddar a bobl proffesiynol o fyd celf i danio, ac i gynnal eu gwaith. Rhaid nodi bod y celfyddydau (neu ddatblygiad diwylliannol o unrhyw fath) yn rym arwyddocaol a all, o'i ddefnyddio y y ffordd iawn, gefnogi yn sylweddol adfywio lleol, gan wneud y lle yn fwy deniadol i breswylwyr presennol a phreswylwyr posibl.

Cyberthnasau: Pan yn ystyried y datblygiadau arfaethedig yng Nghanolfan Gymunedol Glanamau, mae'r berthynas rhwng y defnydd posibl a phrosiectau eraill yn glir. Tra bod y Ganolfan yn cynnig gofod cyhoeddus hygyrch, nid yw'n addas iawn i'w denyddio fel stiwdio - gallai'r Hen Focs Signalau lenwi'r bwlch yma i raddau. Gan gadw mewn golwg potensial celf cymunedol posibl y defnydd a argymhellir, byddai'n bosibl datblygu cysylltiadau cryf gyda ddarparwyr eraill yn y gymuned sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n agor i niwed neu risg. Gall hyn gael ei ddangos orau gan agosrwydd Gofal Aman

(darparwr preifat ar gyfer oedolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a phenodol); gallai'r corff hyn fod yn un o'r partneriaid sy'n defnyddio unrhyw wasanaethau a drefnir o'r Hen Focs Signalau.

Heriau: Her fwyaf yr opsiwn hwn ar gyfer yr ased yw'r angen i newid y canfyddiad o Gwmaman. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddarpariaeth gelf o'r math yn yr ardal leol, a byddai angen tipyn o waith cyn ein bod yn gallu cyflwyno'r gymuned fel canolfan i'r diwydiannau celf a chreadigol.

Yn ychwanegol, fel arfer mae'r ffrydiau cyllid ar gyfer datblygu'r celfyddydau yn gofyn am brofiad blaenorol o ddarparu gwasanaethau celf. Bydd hi'n bosibl gwneud hyn drwy ddefnyddio profiad y Swyddog Datblygu Cymunedol presennol. Serch hynny bydd angen gwneud gwaith ychwanegol i ddatblygu rhwydweithiau y sector celf y gellir eu dangos i gefnogi cyllido at y dyfodol.

6.4.3 Eiddo i'w logi - Twristiaeth

Diffiniad: newid yr eiddo i fod yn eiddo gwyliau "niche" a fyddai'n cefnogi twristiaeth lleol, yn gwneud y mwyaf o'i leoliad ger Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac yn cefnogi ymhellach yr agweddau celf a diwylliannol sydd eisoes yn cael eu datblygu.

Pethau angenrheidiol: er y byddai angen gwaith adeiladu ni fyddent o reidrwydd yn fwy arwyddocaol na'r hyn sydd ei angen i ddatblygu gofod swyddfa. Y gwahaniaeth allweddol yw y byddai'n rhaid cwrdd â gofynion rheoliadau adeiladu mwy llym, a'r gost ychwanegol o osod celfi yn yr eiddo.

Budd Cymunedol: er ein bod yn rhannu gweledigaeth i wella twristiaeth yn lleol, a bod prosiectau yn cael eu datblygu i helpu i wireddu hyn, nid oes ond ychydig o opsiynau am lety yn y gymuned. Mae hyn yn lleihau nifer yr ymwelwyr i fusnesau lleol (tafarndai, siopau, tai bwyta ayyb) gan fod llawer o'r bobl sydd yn ymweld yn aros yn Rhydaman neu ymhellach i ffwrdd. Drwy ddatblygu opsiwn gweddol unigryw i dwristiaid, byddai'r budd mwyaf i fasnach lleol a'r cyfleusterau hamdden sydd ar gael yn y Ganolfan Gymunedol. Wedi dweud hynny rhaid nodi pan fod cymuned yn denu lefel penodol o dwristiaeth, mae gwelliant cyffredinol yn y ffordd y mae preswylwyr lleol yn gweld eu cymuned, ac mae'n datblygu'n gymuned i fod yn falch ohoni.

Cyberthnasau: Wrth ystyried y datblygiadau arfaethedig ar gyfer y Ganolfan Gymunedol, y Gweithdy Cymunedol, y Ganolfan Adnoddau Ieuenctid ac asedau eraill yn y gymuned, mae cysylltiad clir gyda'r angen am lety i ymwelwyr. Byddai hyn hefyd yn cefnogi, fel yn achos y byncws yn y Ganolfan Adnoddau, y ddarpariaeth o ddosbarthiadau preswyl, celf, gwaith coed, cerddoriaeth, theatr ayyb. Hefyd, mae'r safle yn agos iawn i ddau dŷ tafarn, siopau lleol, siopau tecawê, a gorsaf betrol, a byddai pob un ohonynt yn cael budd o ragor o werthiant.

Heriau: er na fyddai'r gwaith adeiladu angen rheidiol yn syml, ni fyddai chwaith mor sylweddol ag i wneud y prosiect yn anymarferol. Mae'r her fwyaf i'r opsiwn arfaethedig yma yn ymwneud â datblygu agwedd fusnes y prosiect, a gwneud Cwmaman yn lle y mae pobl am aros ynddo. Er y byddai'r prosiectau eraill sydd eisoes ar y gweill neu wedi'u cynnig yn cefnogi hyn, byddai angen gwneud tipyn o waith yn marchnata'r ardal yn eang. Byddai hefyd angen ei rannu gyda mudiadau partner posib (grwpiau theatre, clybiau chwaraeon ayyb) er mwyn ymgysylltu â'u cynulleidfaoedd. Hefyd rhaid ystyried y canfyddiad o "dai haf" mewn cymunedau yng Nghymru, ac esbonio'n llawn budd y ffrwd refeniw potensial i'r gymuned, gyda buddion gweladwy yn cael eu dangos yn gynnar yn y datblygiad.

Cwmaman Community Centre Canolfan Gymunedol Cwmaman



Parthed â'r argymhellion penodol am ddyfodol yr ased hwn, credir taw y canlynol yw'r ffordd orau i gwrdd ag anghenion y gymuned, fel y dangoswyd gan yr ymchwil a wnaethpwyd tra'n cynnal yr astudiaeth:

6.5.1 Datblygu Café Cymunedol

Diffiniad: Ar hyn o bryd does unman yn y gymuned, ar wahan i dŷ tafarn, lle y gall y cyhoedd gyfarfod drwy'r flwyddyn. Hefyd does dim ffordd o ddarparu bwydydd iachus a dosbarthiadau coginio neu ddosbarthiadau coginio pryduau bwyd fforddiadwy. Byddai datblygu café nid yn unig yn ffordd o fodloni defnyddwyr y Ganolfan yn gyffredinol ond hefyd yn lle deniadol ac yn fan cyflwyno prosiect. Gallai hyn gael ei wneud drwy gynnal dosbarthiadau, mewn partneriaeth â darparwyr allanol, darparu café cymunedol a arweinir gan wirfoddolwyr i weini holl aelodau'r gymuned a defnyddio'r café fel canolbwynt gwybodaeth digidol/ arlein, ar gael i'r cyhoedd. Mae hefyd wedi'i grybwyll y gallai'r ddarpariaeth gael ei wella'n fawr drwy ddatblygu gofod allanol ar gyfer y Ganolfan Gymunedol, o bosib ar y tir ger y Ganolfan yn rhan isaf Parc Gelli Werdd. Byddai hyn yn cefnogi ystod o ddefnyddwyr gan gynnwys rhieni gyda phlant bach, cerddwyr a pherchnogion cŵn, y grŵp garddio preswyl a grŵp rhieni a phlant meithrin Plant y Cwm. Ymhellach, fe allai ddarparu gofod ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau garddio a dosbarthiadau yn ymwneud â natur yn y Ganolfan.

Pethau angenrheidiol: Mae angen tipyn o waith addurno, atgyweirio ac adnewyddu yn y café / cegin presennol cyn ei bod hi'n bosibl creu gofod cyfforddus a deniadol.

Budd Cymunedoll: Bydd y datblygiad hwn yn ein galluogi ni i ddarparu gwasanaethau cymunedol hygrych, darparu gofod a fydd yn help i leihau unigrwydd, cynnig datblygiad sgiliau drwy wirfoddoli, gwella lles drwy wasanaethau cysylltiedig a helpu gwella boddhad y preswylwyr yn eu cynefin. Yn atodol byddai'r gofod café yn darparu gofod cysurus a deniadol i'r gymuned leol, p'un ai ar ôl iddynt fynychu dosbarth neu tra'n cerdded y ci.

Cydberthnasau: Nid oes yma gyfle amlwg i gydweithio gydag asiantaethau allanol i ddefnyddio'r café fel gofod i gynnal gweithdai, digwyddiadau rhwydweithio a gwasanaethau cynnal therapiwtig. Byddai'n bosibl talu sylw arbennig yn y dosbarthiadau i faterion bwyta'n iach ac yn fforddiadwy; iechyd ac incwm yw 2 o'r meysydd blaenoriaeth a glustnodwyd



o'r data Ward lleol. Byddai'r café hefyd yn cynnig adnodd sydd mawr ei angen ar gyfer y meysydd datblygu eraill yn y Ganolfan Gymunedol, y Gweithdy Cymunedol a'r Hen Focs Signalau.

Heriau: Unwaith eto, o ran y cynnig hwn, marchnata a hyrwyddo fydd yr heriau mwyaf arwyddocaol. Ar hyn o bryd nid yw'r Ganolfan Gymunedol yn cynnig digon o amrywiaeth o wasanaethau atyniadol i gyfiawnháu gofod café. Felly, dylid ystyried y cynnig hwn dim ond fel rhan o ddatblygiad ehangach y Ganolfan gyfan. Ar yr adeg hynny dylai'r Ganolfan gael ei marchnata ar draws y gymuned gyfan yng Nghwmaman a'r ardaloedd cyfagos. Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig yn y broses, a'r awgrym yw y dylai'r café gael ei rannu o'r dechrau er mwyn cynhyrchu diddordeb yn lleol.

6.5.2 Datblygu Canolbwynt Gwybodaeth Gymdeithasol

Diffiniad: Gyda mwy a mwy o wasanaethau yn mynd arlein, mae'r gymuned leol yn cael hi'n fwy-fwy anodd i elwa ar y peth wmbreth o wybodaeth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt. Mae'n ddigon posib bod hyn oherwydd oedran canran fawr o'r boblogaeth, ond mae hefyd i'w weld o fewn grwpiau o bobl ifancach o ganlyniad i fynediad anfoddhaol at, neu wybodaeth am, TGCh. Mae'r Ganolfan hefyd yn gwasanaethu cymuned gymharol dlawd sydd efallai yn cael anhawster i fforddio'r dechnoleg sydd ei hangen.

Drwy brynu a gosod gliniaduron a gweithfannau cyfrifiadur a neilltuwyd, byddai'n bosibl darparu mynediad at wasanaethau arlein i bob preswylwr yn y gymuned, a'r rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd os oedd angen. Byddai hefyd yn bosibl ategu at hyn drwy ddatblygu gwirfoddolwyr digidol cymunedol, yn cydweithio mewn partneriaeth â mudiadau allanol ac yn cyflwyno gweithdai a dosbarthiadau pwnc benodol.

Yn ychwanegol at agweddau digidol y cynnig hwn, byddai hefyd yn bosibl darparu ystod eang o wybodaeth cyfrwng traddodiadol (taflenni, cardiau gwybodaeth ayyb.) i'w dosbarthu yn y café.

Pethau angenrheidiol: Gan ddefnyddio'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr astudiaeth hon, dylid nodi ac ymgysylltu â rhwydwaith o ddarparwyr gwasanaeth i gefnogi cyflenwi'r cynnwys yn y canolbwynt. Dylid hefyd creu cysylltiadau gyda CAVS, Cymunedau Digidol Cymru a WRCVS.

Budd Cymunedol: Gwell mynediad at wasanaethau, ynghyd â'r posibilrwydd y bydd preswylwyr yn llai dibynnol ar y gwasanaethau statudol (ymyrraeth gynnar), yw prif fanteision yn cynnig hwn. Serch hynny, ni ddylid anwybyddu manteision rhyngweithio cymdeithasol, naill ai drwy wirfoddoli neu ymweld â'r Ganolfan.

Cyberthnasau: Mae yma botensial clir i gydweithio'n agos gyda mudiadau allanol gan gynnwys Busnes Cymru, Gweithffyrdd, CETMA, Gwalia, Gofal Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, SAFFA, CYCA, Links, Cymunedau Digidol Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Menter Bro Dinefwr, Law Works ac eraill. Byddai'n bosib gwahodd pob un o'r darparwyr hyn i wneud defnydd o'r canolbwynt i gynnig gwybodaeth ar ffurff adnoddau arlein a chopi caled, a drwy gynnal sesiynau cefnogi wyneb-yn-wyneb.

Heriau: Bydd datblygu rhwydwaith yn rhan allweddol o'r cynnig hwn. Gan ddeall bod gwasanaethau o dan bwysau ar hyn o bryd, gallai hyn brofi'n anodd, yn enwedig o ran gwasanaethau economaidd ac iechyd. Bydd marchnata ac hyrwyddo yn allweddol er mwyn sicrhau bod preswylwyr yn gwneud y gorau o'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt.

6.5.3 Datblygu GofodCreu (MakerSpace) a Chanolbwynt Creadigol /Technoleg

Diffiniad: Dros y misoedd diwethaf mae'r Ganolfan wedi cefnogi gwasanaeth datblygu'r celfyddydau yn lleol, sef PACH-C, sydd wedi dechrau darparu dosbarthiadau celf lefel-isel a digwyddiadau yn y Ganolfan. Mae'r preswylwyr, yn lleol ac ar draws yr ardal gyfagos, wedi dangos tipyn o ddiddordeb yn y ddarpariaeth ond mae'n amlwg nad oes gan y Ganolfan y cyfarpar a'r adnoddau i gyflenwi'r hyn sydd ei angen.

Byddai'n bosib gwneud hyn drwy glustnodi gofod yn y Ganolfan Gymunedol at bwrpas creu a chynhyrchu gwaith crefft, crefftau a chynnyrch mwy cyfredol. Byddai hyn yn golygu gosod ystod o gyfarpar nad yw fel arall ar gael i'r cyhoedd yn yr ardal leol ac ardaloedd cyfagos - seramigau, odyr, torrwr finyl, argraffwyr 3D, thermoffurfiwr - ynghyd ag ystod o offer a chyfarpar cyffredinol. Gallai'r ychwanegiad hwn wella'r Gweithdy Cymunedol sydd eisoes yn cael ei gynnig gan Gyngor Tref Cwmaman, ar yr amod bod yr holl breswylwyr yn cael mynediad at yr offer a chyfarpar gwaith coed. Byddai hefyd gwelliant mawr pe byddai'r llwyfan a'r brif neuadd yn cael eu hail-wampio fel gofod sy'n addas i gyflwyno perfformiadau traddodiadol a phartïon, ac i gyflwyno'r gwaith a grewyd gan y "gwneuthurwyr" gan ddefnyddio'r ddarpariaeth arall.

Gyda'i gilydd, byddai'r datblygiadau hyn yn cynrychioli cam mawr ymlaen mewn datblygu "Cymuned sy'n Creu" go-iawn a fydd yn cynyddu arloesi, yn gwella sgiliau pobl mewn technolegau newydd a thraddodiadol, yn cynnig addysg gyrfaol ac addysg sy'n berthnasol i gyflogaeth ac yn caniatáu i'r gymuned ddod at ei gilydd i rannu sgiliau, profiadau a syniadau.

Pethau angenrheidiol: Gan fod y Ganolfan mewn cyflwr da o ran yr adeilad ac yn gwbl hygyrch, ni fydd angen gwneud unrhyw waith.

Budd Cymunedol: Mae'r cymunedau a wasanaethir gan y Ganolfan yn bwydo nifer o ddarparwyr addysg bellach ac uwch lle y mae celf a dylunio yn gyrsiau poblogaidd iawn. O ganlyniad, mae yma boblogaeth o fyfyrwyr cyfredol a graddedigion diweddar sy'n cael hi'n anodd dod o hyd i ofod a chyfarpar i barhau gyda'u gyrfaedd y tu allan i'r sefydliadau hyn. Mae hefyd prinder gweithgareddau a chyfleoedd i ymgysylltu â chelf, un ai fel gwneuthurwr neu wylwr, yn yr ardal leol, gyda'r canlyniad bod presenoldeb y boblogaeth leol mewn gweithgareddau celf a diwylliannol yn isel. Bydd cynnig mynediad at dechnolegau newydd (argraffwyr 3D, torrwywr laser a chyfrifiaduron a'r feddalwedd cysylltiedig) yn ategu at y newidiadau cyfredol mewn addysg o dan y fframwaith llythrennedd digidol ac yn rhoi'r cyfle i ddysgu am brosesau gweithgynhyrchu a dylunio modern. Byddai modd gwireddu hyn drwy ddatblygu clybiau a grwpiau a dargedir at bobl o bob oedran, a byddai'n bosib darparu hyn gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol i ganiatáu mynediad llawn i ddisgyblion ysgol, myfyrwyr ac oedolion.

Cyberthnasau: Byddai'r prosiect arfaethedig hyn yn cysylltu'n gryf gyda gwaith cyfredol PACH-C, ac yn datblygu ymhellach ein perthynas gyda mudiadau sector celf a chreadigol eraill yn yr ardal. Mae hefyd i'r cysyniad gyfleoedd arwyddocaol i ymgysylltu ag ysgolion, colegau, gwasanaethau iechyd meddwl a mudiadau 3^{ydd} sector.

Heriau: Ar hyn o bryd, nid yw'r math o ddarpariaeth a welir yng Nghwmaman yn cael ei chynnig yn unrhywle arall yng Nghymru. Mae hyn yn gosod heriau amlwg o ran sicrhau bod y gymuned leol yn teimlo bod y ddarpariaeth "iddyn nhw", ac nid yn brosiect a anelir atyn nhw. Mae'r ymchwil a wnaethpwyd yn yr astudiaeth hon yn awgrymu bod angen cyfiawnháu datblygiad o'r fath, ond ni ddylai hyn leihau'r gwaith sydd ei angen i sicrhau bod preswylwyr lleol yn ymgysylltu â'r prosiect o'r dechrau'n deg.

Ail her y cynnig hwn yw'r mynediad at gyllid i ddatblygu'r raglen, a chynnal ei gweithgareddau yn ystod y flwyddyn neu ddwy gyntaf. Dylai pwysigrwydd y prosiect a chyweddu strategaethau, yn lleol ac yn genedlaethol, gyfiawnhau i raddau helaeth yr angen am gyllid. Bydd y cynnig hefyd yn cael ei gefnogi oherwydd y diffyg darpariaeth debyg yn yr ardal leol. Ond efallai bydd chwilio am gyllid refeniw ym mlynnyddoedd 1 a 2 yn anoddach oherwydd prinder ffynonellau cyllido addas.

6.6 Gweithdy Cymunedol

Cyngor Tref Cwmaman sy'n berchen ar y Gweithdy Cymunedol sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei ddefnyddio gan grŵp Sied Dynion Dyffryn Aman. Mae'r adeilad wedi bod yn rhan allweddol o'r gymuned am gyfnod hir ac wedi bod yn gartref i amryw o grwpiau cymunedol a Chyngor y Dref ac wedi chwarae rhan allweddol ym mywydau llawer o breswylwyr lleol. Mae'r preswylwyr am i'r adnodd gael ei gadw a'i warchod gan Gyngor Tref Cwmaman a'i ddefnyddio i wasanaethu gofynion y gymuned leol a'r ardaloedd cyfagos.

Mae'r adeilad yn mantasio ar baneli haul, a gafodd eu gosod yn ddiweddar, mae'r system drydanol wedi'i rhannol adnewyddu ac mae'n agos i'r Ganolfan Adnoddau Ieuentid, Canolfan Gymunedol Cwmaman a'r Hen Focs Signalau. Mae hefyd parcio ar y safle a mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae angen gwaith adnewyddu ar rannau o'r adeilad er mwyn atal dirywiad pellach, yn benodol mae angen gwella ardal y gegin a'r toiledau a'r to uwchben y fynedfa gefn.

Ar hyn o bryd dim ond un grŵp sy'n defnyddio'r adeilad, sef Sied Dynion Dyffryn Aman. Er yr ystyrir bod gan y grŵp hwn y potensial i gwrdd â gofynion grŵp sy'n cael braidd dim sylw yn y gymuned, y teimlad yw taw nid dyma'r ffordd i wneud y defnydd gorau o'r ased.

O ystyried datblygiadau mewn ardaloedd eraill yn y gymuned, y gred yw y dylid cadw'r ased hwn fel gweithdy, ond nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn cwrdd â'r gofynion. Oherydd hynny, mae'r argymhellion ar gyfer y safle hwn wedi'u cyfyngu at ddatblygu'r defnydd presennol ymhellach.

6.6.1 Gweithdy Cymunedol a Gofod ar gyfer Addysg

Diffiniad: Dylai'r adeilad gael ei adfer yn gyfangwbl o ran addurniad, a dylid mynd i'r afael â thrwsio'r gegin, y toiledau a'r to. Byddai'n bosib gwneud hyn yn y modd canlynol:

Ystafell Fawr – Yn gartref i beiriannau gwaith coed, a'i ddefnyddio fel gofod dysgu.

Ystafell Maint Canolig – Ei defnyddio naill ai fel man gweithio metal, neu ar gyfer plaen cafnu dan reolaeth cyfrifiadur a pheiriant melino.

Ystafell Fach (Mynediad) – Ei defnyddio i gadw ystod o offer llaw, meinciau gwaith ac offer pweredig bach. Efallai byddai'n bosib cynnwys gorsafoedd gwaith trydanol/ electroneg.

Yn ychwanegol at y newidiadau ffisegol i'r adeilad ac integreiddio cyfarpar newydd, teimlir bod angen newid arwyddocaol ar ddefnydd a rheolaeth y gofod. Argymhellir bod yr ased yn cael ei ddefnyddio gan nifer o grwpiau, ac yn gartref i nifer o brosiectau; gallai'r rhain, ym ôl yr ymchwiliad a wnaethpwyd, gynnwys y canlynol:

Grwpiau Defnyddwyr	Prosiectau
<ul style="list-style-type: none">• Sied Dynion Dyffryn Aman• Grŵp Turnio Coed• Plant a Phobl Ifanc• Iechyd Meddwl• Grŵp Merched	<ul style="list-style-type: none">• Gweithdai DIY /cynnal a chadw sylfaenol• Dosbarthiadau Turnio Coed• Dosbarthiadau Gwaith Coed• Dosbarthiadau Gwaith Metal• Cynhyrchu CNC – wedi'i integreiddio â'r cwricwlwm• Gofod Gwaith cost-isel• Prosiect cymunedol – ail-ddefnyddio, ailgylchu ac adfer• Cynhyrchu eitemau fforddiadwy gan ddefnyddio deunyddiau naturiol neu a ailgylchwyd – bydd y refeniw yn cynnal y gofod a gweithgareddau cymunedol eraill• GofodCreu (MakerSpace) – yn ffocysu'n benodol ar gynhyrchu eitemau pren a metal• Adnodd ddarparu i ddarparwyr allanol – addysg, iechyd meddwl, gwaith ieuenticid ayyb.• Datblygu Llyfrgell Offer Cymunedol• Café Trwsio• Cynnal a Chadw Beiciau

Pethau angenrheidiol: Er bod y gofod yn gweithredu fel gweithdy ar hyn o bryd, mae angen peth gwaith adfer cyn ein bod yn symud ymlaen at y cam nesaf:

- Bydd angen **asesiadau risg a chytundebau a gweithdrefnau i'r defnyddiwr** cyn bod unrhyw waith yn gallu dechrau.
- Dylid gwneud y gwaith **cynnal a chadw ac addurno** i helpu darparu amgylchedd gyfforddus ac ysgogol.
- Mae angen **gwasanaethu'r peiriannau a'r system drydanol bresennol** i sicrhau bod yr holl eitemau a'r cyflenwad yn ddiogel ac yn ddiogel.

Yn ychwanegol, argymhellir yn gryf bod ymchwiliadau yn cael eu gwneud i'r tebygrwydd o gael mynediad at yr iard y tu ôl i'r gweithdy. Er bod hon yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd at bwrpas storio, prosiectau achlysurol a gofod ychwanegol, nid oes gennym gytundeb pendant neu sicrwydd tymor hir o berchnogaeth ar yr iard. Byddai sicrhau mynediad / perchnogaeth yn cynyddu potensial y gweithdy yn sylweddol, ac yn caniatáu gofod gwaith ychwanegol, cyfleusterau awyr agored (weldio, efail, bwth chwistrellu ayyb) a chynnig y posibilrwydd o wneud prosiectau ar raddfa ehangach. Mae hefyd potensial i ddatblygu gofod gwaith i unigolion, a byddai hyn yn cyfrannu arian tra'n cefnogi busnesau newydd.

Budd Cymunedol: Yn debyg i'r cynnig i ddefnyddio'r Hen Focs Signalau fel adnodd celf, mae'r dystiolaeth o'r budd sy'n dod o gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau creadigol, ymarferol a "gwneud" wedi'u cofnodi'n helaeth. Serch hynny, mae'r cysyniad hwn yn cynnig mantesion arwyddocaol i Gwmaman a'r ardaloedd cyfagos.

Perthynas â'r cwricwlwm – ar hyn o bryd does dim darpariaeth i bobl ifanc a myfyrwyr eraill i ddysgu y tu allan i'w sefydliad addysgol. Mae hyn ym lleihau effaith dysgu, yn lleihau eu capasiti am "hunan-addysgu" ac yn atal datblygiad rhyngweithiadau cymdeithasol positif o gwmpas diddordeb a rennir.

Sgiliau sy'n berthnasol i'r gwaith – drwy ymgynghori â busnesau lleol a chyflogwyr preswylwyr lleol, mae'n ymddangos bod prinder sgiliau sy'n berthnasol i ddiwydiannau penodol. Roedd hyn yn dod yn amlwg iawn wrth siarad â chynrychiolwyr y sectorau gweithgynhyrchu, dylunio, peirianeg a saernïo.

Cynaliadwyedd cymunedol – bydd y cyfle i gynhyrchu incwm drwy wahanol agweddau o'r cynnig hwn yn rhoi hwb sydd mawr ei angen i gyllido gweithgareddau cymunedol eraill.

Lleoleiddio gwasanaeth – o ystyried lleoliadau gwasanaeth cymunedol, er budd y gymuned, mae'r ddarpariaeth agosaf o natur tebyg yn Llanelli. Mae hyn yn lleihau'r potensial i droseddwy'r o'r ardal leol ymgysylltu yn y weithgaredd bositif ac adferol hon, tra'n lleihau'r buddion a ddaw i'r gymuned gyfan.

Rhyngweithiad cymdeithasol – fel gyda'r unig ddeiliad, mae'r buddion rhyngweithio cymdeithasol sy'n deillio o rannu gweithdai cymunedol yn sylweddol. Drwy ddatblygu'r cynnig hwn, gall y buddion hyn fod ar gael i holl grwpiau demograffig y gymuned.

Cyberthnasau: Mae sawl rhyngweithiad posibl rhwng y prosiect hwn a darpariaeth cymunedol arall, cyfredol ac arfaethedig. Y mwyaf amlwg yw'r datblygiadau a gynigir ar gyfer y Ganolfan Gymunedol; gwneud, creadigwrydd a chelf. Serch hynny, mae cysylltiadau clir gyda darparwyr addysg a darparwyr y 3^{ydd} sector sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed: troseddwy'r ifanc, disgyblion sydd â ffobia am fynd i'r ysgol ac oedolion unig er enghraifft. O ystyried y potensial am gynyddu defnydd, ynghyd â phosibiliadau preswyl, mae hefyd cysylltiadau gyda'r Ganolfan Adnoddau Ieuentid (hefyd cysylltiadau addysg) a masnachwyr lleol.

Heriau: Efallai bydd dod o hyd i'r cyllid cychwynnol yn anodd; i sicrhau'r cyfle gorau am lwyddiant, dylid cyfuno'r prosiect gweithdy gydag agweddau eraill o ddatblygu cymunedol sy'n cael eu hystyried. Yn ail, mae gadael i'r cyhoedd ddefnyddio'r offer yn codi risg arwyddocaol, felly mae'n bwysig bod yr holl bolisiau, dogfennau, deddfwriaeth a gofynion hyfforddi wedi cael eu hystyried cyn cychwyn ar y prosiect.

6.7 Canolfan Adnoddau Ieuentid

Mae'r Ganolfan Adnoddau Ieuentid nid yn unig yn ased gwych i'r gymuned leol ond hefyd yn ased gweddol unigryw yn Sir Gaerfyrddin, ac yn cynnig potensial arwyddocaol pe byddai'n cael ei ddatblygu a'i reoli mewn ffordd addas. O ran yr argymhellion penodol am ddefnydd yr ased at y dyfodol, yn ôl yr ymchwil a gynhaliwyd yn ystod yr astudiaeth hon, credir bod y canlynol yn cwrdd â gofynion y gymuned:

6.7.1 Canolfan Addysg – gyda darpariaeth breswyl

Diffiniad: O'i ystyried ynghyd â'r cynigion eraill a gyflwynir yma, gwaith cyfredol yn y gymuned, fframweithiau addysg cenedlaethol a'r angen, fel y dangosir gan ddata addysg lleol, i wella sgiliau, gallai'r ased hwn wneud cyfraniad arwyddocaol i'r meysydd hyn. Drwy ddefnyddio'r capasiti preswyl, y gegin a'r gofod dysgu, gallai'r Ganolfan Adnoddau Ieuentid (GAI) ychwanegu dimensiwn arall i'r ddarpariaeth yn y Ganolfan Gymunedol, y Gweithdy a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y coetir. Byddai'r cynnig hwn yn gweld y GAI yn cael ei droi'n ofod addysg yn ystod y dydd, y penwythnosau a'r gwyliau, lle y gallai bobl ifanc ymgysylltu â chwricwlwm amgen a fyddai'n cyfuno addysg awyr agored, technolegau a chreadigrwydd tra'n cefnogi datblygiad sgiliau craidd. Byddai'n golygu bod y defnydd presennol yn gallu parhau a sicrhau bod adnoddau a chapasiti yn eu lle i gefnogi darparu gweithgareddau bugeiliol a chymdeithasol i bobl ifanc yn y gymuned leol. Yn ystod y gwyliau byddai'r ddarpariaeth hefyd yn cefnogi'r angen am weithgareddau positif i bobl ifanc drwy gyflwyno gwasanaeth ar ddull "Gwersyll".

Pethau angenrheidiol: Mae darparu gwasanaeth i, a gyda, pobl ifanc yn golygu gwneud tipyn go lew o waith paratoadol o ran diogelwch, polisiau a gweithdrefnau. Wedi dweud hynny, mae'r sgiliau a fydd yn caniatáu i hyn gael ei ddatblygu mewn partneriaeth eisoes ar gael o fewn y GAI a Chyngor Tref Cwmaman.

Budd Cymunedol: Mae'r angen am weithgareddau positif i bobl ifanc yn y gymuned wedi'i adnabod fel consyrn mawr. Mae Clwb Ieuentid wedi'i nodi gan llawer o breswylwyr, ac yn cael ei ystyried, er bod angen ei wella, yn wasanaeth y dylid ei gynnal a'i ddatblygu ymhellach. Serch hynny, mae preswylwyr o bob oedran wedi dweud nad yw'r Clwb Ieuentid yn lleoliad addas i lawer o bobl ifanc lleol. Gwelwyd cyflwyno darpariaeth addysg, a allai gynnwys clybiau penodol, grwpiau a chylchoedd cymdeithasol, fel ateb poibl i'r sefyllfa hon. Yn ychwanegol, mae cynaliadwyedd tymor hir y Ganolfan fel darparwr i bobl ifanc, wedi'i gwestiynu. Drwy ddatblygu gwasanaeth sy'n gwneud defnydd o ddsbarthiadau

ac adnoddau preswyl y Ganolfan, ynghyd â'r gwasanaethau / cyfleusterau sydd ar gael yn y Ganolfan Gymunedol a'r Gweithdy, byddai'n bosibl creu adnodd unigryw, a ffynhonnell bosibl o refeniw.

Cyberthnasau: Yn bennaf gyda'r Ganolfan Gymunedol a'r Gweithdy, er bod potensial i ddatblygu cyberthynas gyda darparwyr allanol, mudiadau 3^{ydd} sector a Gwasanaethau Plant.

Heriau: Y brif her, o'i ystyried fel prosiect i Gyngor Tref Cwmaman, yw'r capasiti i gyflwyno ac i reoli'r prosiect. Os byddai'n bosibl creu partneriaeth rhwng y Cyngor, ymddiriedolwyr y Ganolfan Adnoddau Ieuenctid ac, o bosib, darparwr allanol, yna y brif her byddai sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i sicrhau cyfleuster diogel a chefnogol i bobl ifanc.

6.7.2 Darparu Byncws – twristiaeth lleol

Diffiniad: O ystyried yr angen i wella twristiaeth yn lleol er mwyn cefnogi datblygiad economaidd, mae'r mater o lety fforddiadwy yn un sydd angen sylw. Mae'r adnodd Byncws yn ddas iawn at y pwrpas hwn, yn enwedig pan mae'n cael ei ystyried ochr yn ochr â'r cynigion eraill sy'n cael eu crybwyll yn y gymuned. Byddai'r cysniad hwn yn golygu bod byncws y GAI ar gael i'w logi gan ymwelwyr i'r ardal ar y penwythnos, yn ystod gwyliau ysgol ac adeg digwyddiadau arbennig eraill.

Pethau angenrheidiol: Ar hyn o bryd nid yw cyflwr cyffredinol y GAI yn ddigonol i'w gynnig i logwyr preifat, a byddai angen gwella'r ddarpariaeth. Byddai hefyd angen gwneud tipyn o waith i wedd allanol yr adeilad a'r tiroedd i sicrhau ei fod yn ddeniadaol ac yn groesawgar i ymwelwyr i'r ardal.

Budd Cymunedol: Mae cynaliadwyedd parhaus y GAI o bwys mawr. Felly, prif fantais y cynnig hwn yw'r ffaith ei fod yn cynnig y potensial i gynhyrchu refeniw i gefnogi'r Ganolfan a'i wasanaethau.

Cyberthnasau: Gan taw prif bwrpas y cynllun byddai denu twristiaid i'r gymuned drwy gynnig llety fforddiadwy, byddai'r cyberthnasau yn perthyn yn bennaf i fusnesau yn y sector gwasanaeth lleol, atyniadau i dwristiaid, gweithgareddau yn y Ganolfan Gymunedol a chlybiau chwaraeon lleol.

Heriau: Y brif her yw datblygu cytbwysedd rhwng darparu gwasanaethau i bobl ifanc lleol tra hefyd yn cynnal cyfleuster y byddai ymwelwyr yn barod i aros ynddo. Gallai hyn greu peth gwrthdaro rhwng ymddiriedolwyr y GAI / pobl ifanc a'r Cyngor, er byddai'n bosibl goresgyn rhain drwy weithio mewn partneriaeth a chyfathrebu effeithiol o'r dechrau.

6.8 Pafiliwn Bowlio

DELWEDD/ MAP

Wrth drafod yr argymhellion penodol ar gyfer defnydd yr ased hwn yn y dyfodol yn ystod yr ymgynghoriad, cynigiwyd amrywiaeth o syniadau. Yn anffodus ni ystyriwyd un o'r syniadau hyn yn ddigon cynaliadwy ar ei hun, felly mae'r cynllun canlynol yn uno 3 o'r syniadau hyn (café, siop a llogi beiciau) gan gadw'r defnydd presennol – pafiliwn bowlio - hefyd.

6.8.1 Café Tymhorol a Siop gyda man Llogi Beiciau

Diffiniad: Yn ystod yr ymgynghoriad ystyriwyd bod cadw defnydd presennol yr adnodd hwn yn bwysig, gyda'r cyfranogwyr yn sôn am ei bwysigrwydd hanesyddol, hygyrchedd ar gyfer preswylwyr hyn, a'i fod yn rhoi'r cyfle i Gwmaman ymgysylltu â chymunedau eraill drwy gyfrwn gweithgareddau chwaraeon. Os bydd hi'n bosibl cynnal y costau a bod y safle yn gynaliadwy, ystyrir bod cadw natur arbenigol y safle yn opsiwn teilwng.

Pan yn trafod y gwahanol asedau gyda phreswylwyr lleol, roedd y themau canlynol yn codi'n aml: café, beicio, mynediad at gyfarpar chwaraeon i blant a gweithgareddau fforddiadwy. I ymateb i'r ystyriaethau hyn, mae'r cysyniadau canlynol yn gwneud ymgais i gefnogi dyfodol y Pafiliwn Bowlio drwy agor café yno,



café a fydd yn cynnwys siop fach, man llogi beiciau a chyfarpar i'w logi i'w ddefnyddio yng Ngolwg yr Aman ac yn yr Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd.

Café: efallai yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr sy'n aelodau o'r clwb bowlio, grwpiau rhieni neu'r ganolfan deuluoedd ac yn gweini bwyd cost-isel, iachus yn ystod misoedd y Gwanwyn a'r Haf. Ar adegau eraill y flwyddyn gallai'r café weini lluniaeth ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a phartïon sydd wedi bwcio'r Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd.

Siop: yn ystod y cyfnod ymgynghori, cafwyd y syniadau canlynol ar gyfer y siop:

- Teganau neu offer awyr agored fforddiadwy e.e. barcutiaid, peli, cyflenwadau pysgota.
- Byrbrydau ac offer chwaraeon.
- Gweithgareddau i blant.
- Cyflenwadau i gerddwyr cŵn.
- Cyflenwadau i feicwyr.

Ystyriwyd bod siop yn opsiwn hyfyw gan fod y safle yn agos i'r ysgol gynradd leol, yr Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd (MUGA) a llwybr beicio yr Afon Aman, sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson gan feicwyr, cerddwyr a marchogion.

Llogi Beiciau: Mae'r data cyfredol yn awgrymu bod iechyd yn faes o flaenoriaeth yn yr ardal leol. Felly, ystyrir bod cyflenwi beiciau fforddiadwy i'w defnyddio ar llwybr beicio yr Afon Aman, ynghyd â theithiau beic a drefnir, yn opsiwn addas ar gyfer y safle. Bydd hi'n bosibl rheoli llogi'r cyfarpar fel rhan o wasanaeth y café, a bydd y beiciau yn cael eu cynnal a chadw fel rhan o brosiect cymunedol arall sydd yn cael ei ystyried, sef sefydlu grŵp cynnal a chadw beiciau. Byddai hyn yn caniatáu integreiddiad gyda'r wybodaeth i dwristiaid presennol sy'n berthnasol i llwybr y Twrch Trwyth.

Agweddau Allweddol: Yn ystod yr ymgynghoriad, ystyriwyd bod y pwyntiau canlynol o bwys:

- Dylai'r ddarpariaeth fod yn fforddiadwy i breswylwyr lleol gyda'r posibilrwydd o gynnig disgownt i'r bobl sy'n byw yng Nghwaman.
- Dylai'r café ddarparu byrbrydau iachus.
- Dylai'r adnodd fod yn groesawgar i feicwyr, marchogion a cherddwyr cŵn, gyda threfniadau penodol i gefnogi pob un; e.e. manau clymu ceffyl, standiau beiciau, powlenni i'r cŵn, cyflenwadau perthnasol ayyb.
- Dylai'r adnodd gael ei redeg gan breswylwyr lleol er budd y gymuned.
- Dylid trefnu "dyddiau hwyl" yn ystod gwyliau'r ysgol, gan wneud defnydd o'r MUGA, y grŵn bowlio, Parc Golwg yr Aman a'r ardal chwarae gyfagos.
- Dylid sicrhau bod ystod o feiciau ar gael, gan gynnwys beiciau i oedolion a phlant, treisiglau, beiciau siopa a beiciau gyda darpariaeth i fabanod.
- Dylid trefnu teithiau beic cyson, teithiau a fydd yn tywys preswylwyr lleol ar hyd llwybr glan yr afon.



Pethau angenrheidiol: Mae'r safle hwn wedi cael ei adnewyddu yn ddiweddar fel rhan o'r broses trosglwyddo asedau, felly does dim problemau arwyddocaol i'w datrys. Yn y cyswllt hwn y peth angenrheidiol yw datblygu cynulleidfa, a banc o wirfoddolwyr. Byddai'n bosibl gwneud hyn drwy gynnal cyfres o ddiwrnodau blasu i arddangos agweddau o'r prosiect: beiciau diddorol, barbeciw cymunedol, trefnu teithiau beic / marchogaeth, sesiynau gweithgaredd gan ddefnyddio'r Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd neu weithgareddau tebyg i ddenu teuluoedd a defnyddwyr posib. Byddai'n bosibl gwella'r agwedd wirfoddol drwy gynnig cynllun bancio amser cymunedol neu gynllun credydau amser.

Budd Cymunedol: Mae buddion uniongyrchol a photensial y prosiect hwn yn eithaf amrywiol, felly maen nhw wedi cael eu trafod ar wahan isod:

- A. **Iechyd:** gan fod y data diweddar wedi nodi bod iechyd preswylwyr lleol yn fater allweddol, y farn yw bod yma gyfleoedd arwyddocaol i annog byw yn weithgar. Mae cymuned Cwmaman yn ffodus bod digonedd o ddarpariaeth chwaraeon traddodiadol yn y gymuned ac yng nghymuned gyfagos Rhydaman. Serch hynny, mae dal nifer sylweddol o bobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu heriau oherwydd anweithgarwch. Gall y cynnig hwn gynnig cyfleoedd amgen i fod yn gorfforol weithgar sy'n wahanol i'r chwaraeon cystadleuol sydd ar gael er hyn o bryd, drwy gyfuno beicio hamdden a gweithredol, gemau corfforol (nid chwaraeon) a chyflwyno "chwaraeon" amgen. Un esiampl o hyn, sydd wedi profi'n boblogaidd iawn ymysg plant yn ystod yr ymgynghoriad, yw "NERF Wars" sy'n defnyddio'r teganau NERF poblogaidd mewn arena caeedig.ⁱ

Mae defnyddio'r café cymunedol i ddarparu ac hyrwyddo bwydydd iachus yn cynnig y potensial i gefnogi pobl i fyw bywydau mwy iach. Yn ystod yr ymgynghoriad, awgrymwyd y dylai'r café cymunedol ddefnyddio bwydydd cyfan a gynhyrchwyd yn lleol, a darparu ryseitiau i fynd allan gyda phob pryd o fwyd neu fyrbryd a werthir. Bydd hyn yn rhoi'r mantais ychwanegol o ganiatau bod preswylwyr yn gallu paratoi prydau bwyd iachus yn y cartref, a chefnogi gwerthiant / defnydd cynnyrch lleol.

- B. **Glyniad Cymdeithasol:** un o'r materion sydd wedi codi yn ystod tipyn o'r broses ymgynghori yw bod preswylwyr yn cofio adeg pan roedd y gymuned yn dod at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau yn llawer amlach nag y maent yn gwneud erbyn hyn. Cafodd hyn ei atgyfnerthu, gydag ymgynghoreion yn dweud nad ydynt yn adnabod llawer o'u cyd-breswylwyr, neu'n ymgysylltu llawer â'r gymuned. Drwy ddatblygu canolbwynt cymunedol i'r holl breswylwyr mae na botensial yng Ngarnant i drefnu a chyflwyno ystod o ddigwyddiadau cymunedol, fel a ganlyn:
- Hygyrch
 - Fforddiadwy
 - Dymunol
 - Ymlaciedig
 - Cynaliadwy

Byddai hyn hefyd yn cefnogi mwy o wirfoddoli cymunedolⁱⁱ, mwy o gyfleoedd i sefydlu grwpiau cymunedol ac yn helpu pobl sy'n teimlo'n gymdeithasol ynysig i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol.

- C. **Cynaliadwyedd y Safle:** drwy ddefnyddio'r Pafiliwn Bowllo fel canolbwynt i'r datblygiad hwn, mae potensial arwyddocaol i gynnal y ddarparieth yn y tymor hir. Os bydd hi'n bosibl i Glwb Bowllo Cwmaman a'r Cyngor i ddod i gytundeb, gallai'r prosiect gynhyrchu ffrwd refeniw y byddai'r ddau fudiad yn elwa ar, a'r cyfan er budd ehangach y gymuned gyfan.
- D. **Cyfleoedd i Wella Cydraddoldeb:** pan yn ystyried materion mor wahanol â iechyd/ anghyfartalwch economaidd, darpariaeth gymunedol i grwpiau penodol, canfyddiad rhwng grwpiau a gwahaniaethau oedran, rhywedd ac hiliol, mae cydraddoldeb mewn cymuned yn sail i ddatblygu effeithiol. Wrth ystyried yr ystod eang o elfennau yn y cynnig hwn, mae llawer o gyfleoedd i gefnogi cymunedau mwy cyfartal yng Ngwmaman.
- E. **Ymgysylltiad a Chydweithrediaidau:** o ystyried y ddarpariaeth sydd ar goll, ac felly'r sgiliau a/neu wybodaeth sydd eu hangen i ddatblygu ac i gyflenwi'r prosiect hwn, byddai gweithio gydag ystod o bobl ar draws y gymuned yn gwbl hanfodol. Byddai hyn nid yn unig yn cynnig cyfleoedd i'r Cyngor i ymwneud â, a chydweithio gyda'r gymuned, ond hefyd yn dangos bod angen i aelodau'r gymuned gydweithio gyda'u grwpiau ac i ymgysylltu â bobl o grwpiau eraill yng Nghwmaman. Fel y gwelwyd eisoes yn yr astudiaeth hon,

byddai'r cysyniad, i raddau helaeth, yn ddibynol ar ymgysylltu cymunedol ar bob lefel, ac ymhob cyfnod yn ei ddatblygiad.

Cyberthnasau: os ydy'r Clwb Bowlio i'w ystyried yn endyd penodol ar wahan i'r Cyngor, a fydd yn goruchwyllo'r prosiect, yna rhaid ei ystyried fel y prif gyberthynas yn y ddarpariaeth. Serch hynny, mae hefyd cysylltiadau arwyddocaol gyda grwpiau presennol yn y gymuned – grwpiau marchogaeth, beicio, cerdded cŵn a chwaraeon. Felly dylid ymgynghori ymhellach gyda'r grwpiau hyn parthed â datblygiad a rheolaeth parhaus y cysyniad hyn, a chysyniadau tebyg yn y dyfodol. Rhaid nodi agosrwydd y safle i'r ysgol gynradd leol (Ysgol y Bedol – “ysgol gymunedol”) – mae hyn yn cynnig cyfle arwyddocaol i weithio mewn partneriaeth, a buddion sy'n gallu cael eu rhannu o ran dangosyddion perfformiad. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i Ganolfan Deuluoedd Garnant a'r ddarpariaeth i ieuentid yn yr ardal.

Heriau: Gan fod y safle mewn cyflwr da, a byddai'r gwaith adeiladu ac addasu yn gymharol fach, her fwyaf y prosiect hwn yw sicrhau bod gwirfoddolwyr a phartneriaid lleol yn ymgysylltu. Serch hynny, drwy gynllunio bod ymgysylltu gan wirfoddolwyr yn cael ei wobrwyo, a'i gyfuno â pherchnogaeth cymunedol y proiect o'r cychwyn cyntaf, yna byddai'n bosibl goresgyn y broblem hon.

Yn ychwanegol, efallai byddai ambell her yn ymddangos wrth geisio cydbwysu anghenion y gwahanol randdeiliaid, er enghraifft aelodau'r Clwb Bowlio a phobl ifanc lleol. Unwaith eto, byddai angen tipyn o waith datblygu i sicrhau bod anghenion pawb yn cael eu diwallu, tra bod pawb hefyd yn deall pwysigrwydd ei rôl yn y prosiect.

Rhaid hefyd ystyried y problemau a allai godi oherwydd perchnogaeth gymysg y tir sy'n amgylchynu'r Pafiliwn Bowlio. Enghraifft o hyn yw defnydd Golwg yr Aman ar gyfer seddi ychwanegol, gweithgareddau a digwyddiadau. Bydd rhaid cael trafodaethau a chytundeb er mwyn gwireddu potensial llawn y cynnig hwn.

6.9 Gofodau Awyr Agored – Parciau, Mannau Chwarae a Choetiroedd

Mae Cwmaman yn manteisio ar lawer o ofod naturiol, yn amrywio o goetiroedd i afonydd. Efallai taw dyma'r ased sy'n cael y sylw a'r defnydd lleiaf ar hyn o bryd, a sydd â'r potensial i gyfrannu budd sylweddol i les lleol, ac i ennyn diddordeb y rhai sy'n byw mewn cymunedau eraill y tu allan i'r gymuned hon. Mae hefyd ystod o gyfleoedd a allai sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn cael budd o well mynediad at, a defnydd o'r, adnoddau hyn.

Pan yn ystyried maint y boblogaeth, a'r niferoedd yn y grwpiau oedran sy'n gwneud defnydd ohonynt, rhaid nodi bod nifer go fawr o ardaloedd chwarae yn y gymuned. Mae'r mwyafrif o'r safleoedd hyn yn cynnig adnoddau chwarae a hamdden i blant a'r ardegau iau. Mae tystiolaeth bod bobl ifanc yn eu harddegau hyn yn ymgasglu yn yr ardaloedd chwarae, ac mae hyn wedi arwain at beth fandaliaeth, taflu sbwriel a difrod i'r offer chwarae.

O ystyried parciau Cwmaman, mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar barciau hamdden Golwg yr Aman a Gelli Werdd. Mae'r ddau safle hyn yn cynrychioli canran arwyddocaol o'r gofod gwyrdd nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amaeth, caeau chwarae ac ardaloedd chwarae. Er gwaethaf maint yr asedau hyn, maen nhw'n cael eu defnyddio yn bennaf gan ddau grŵp yn y gymuned, cerddwyr cŵn a marchogion. Er bod angen cefnogaeth ar y ddau grŵp yma, mae'r datblygiadau a awgrymir isod yn ceisio gwella'r gefnogaeth hyn, tra'n gwneud gwell defnydd o'r holl fannau agored yng Nghwmaman, a hynny er budd y gymuned gyfan.

O ran yr argymhellion penodol am ddefnydd yr ased at y dyfodol, yn ôl yr ymchwil a gynhaliwyd yn ystod yr astudiaeth hon, credir bod y canlynol yn cwrdd â gofynion y gymuned:

6.9.1 Adloniant a Dysgu yn y Coetir

Diffiniad: Mae digon o dystiolaeth o'r ffaith bod mynediad at fannau gwyrdd a'r amgylchedd naturiol, mewn ffordd ryngweithiol, ymgysylltiol, yn fuddiol i iechyd meddwl a chorfforol.ⁱⁱⁱ Gan fod y ddau hyn wedi'u nodi fel meysydd o gonsyrn yng Nghwmaman a'r ardaloedd cyfagos, mae'n amlwg bod angen ystyried defnyddio'r amgylchedd naturiol i helpu cefnogi lles.

Sut mae gwneud hyn? – mae'r atebion mor amrywiol â'r nifer o bobl sy'n byw yn y gymuned. Fodd bynnag, mae nifer o ddulliau sydd wed cael eu defnyddio mewn llefydd eraill a allai gael eu defnyddio yng Nghwmaman.

Mae'r rhain yn cynnwys:

'Ysgolion' y Coetir a Dysgu yn y Coetir: Tra bod ysgolion yn y coetiroedd yn cael eu hanelu yn bennaf at blant, gall y cysyniad apelio at rieni a gwarcheidwyr o ganlyniad i fynyachu sesiynau gyda'u plant^{iv}. Mae'r mwyafrif o ysgolion yn y coetir yn defnyddio “ystafell ddosbarth” y coetir i ddysgu ystod eang o sgiliau penodol ac holistaidd i blant a phobl ifanc. Gall rhain amrywio o adeiladu tîm i gymryd risgiau *diogel*, o goginio i annibyniaeth ac o ddatrys problemau i adeiladu hyder.

Drwy ymgymryd â thasgau byr, cyraeddadwy (fel adeiladu lloches, crefftau neu wneud offer syml) mae'r plant yn datblygu pob un o'r sgiliau hyn tra'n gwella eu lefel o weithgaredd corfforol a'u lles meddyliol. Mae'r gwelliannau hyn yn aros gyda'r plant pan fyddant yn dychwelyd i'r ystafell ddosbarth arferol, ac yn aml yn gallu eu helpu i wella eu cyrhaeddiad ym myd addysg draddodiadol.^v

Nid yw'r cyfleoedd dysgu yn fuddiol i'r plant yn unig – mae diddordeb cynyddol ymysg oedolion mewn dychwelyd at fywyd lle y gallant ymgysylltu mwy gyda natur, datblygu sgiliau rheoli'r coetir, crefftau traddodiadol neu, yn syml, treulio amser cynhyrchiol y tu allan i'w bywydau dydd-i-ddydd arferol.

Byddai'n bosibl datblygu'r ddwy agwedd yma o'r cynnig yng Nghwmaman drwy ddefnyddio'r tir ym mhen uchaf Gelli Werdd, ac hyd yn oed yr ardaloedd bach o goetir yng Ngolwg yr Aman. Gallai'r datblygiad fod mor syml â threfnu digwyddiad cymunedol yn yr ardaloedd hyn, ac ymroi i heriau megis adeiladu llochesi syml neu gynhyrchu crefftau syml. Ar y lefel hon, ni fyddai angen llawer o fewnbwn heblaw am staffio'r weithgaredd gyda gwirfoddolwr neu weithiwr sesiynol sy'n deall y gofynion. Hefyd, dyma fyddai'r cyfnod cychwynnol o unrhyw brosiect mwy er mwyn datblygu cyfranogiad, ennyn diddordeb a chyflwyno'r gwasanaeth yn raddol.

Unwaith bod y prosiect wedi'i sefydlu, gall y gweithgareddau fod yn fwy anturus, gael eu cynnal yn amlach a'u gwella drwy rhoi mynediad i mwy a mwy o'r tir sydd ar gael. Yn dilyn cyfnod o ddatblygu efallai bydd y cyfle'n codi i greu Ysgol Goetir gofrestrdig^{vi} ac i gefnogi cynnal sesiynau hyfforddiant trwyddedig i oedolion drwy gyfrwng partner allanol.

Grwpiau Bywyd Gwyllt a Natur: Fel yn achos y cysyniad blaenorol, nid oes angen llawer iawn ar y ddarpariaeth hon – dim ond arweinydd gwybodus a galluog i arwain y gweithgareddau. Mae esiamplau o grwpiau llwyddiannus yn cynnwys rhieni a phlant yn mynd am deithiau sbotio natur, cymunedau yn cynhyrchu bocsys nythu (y preswylwyr hyn i wneud y bocsys a'r preswylwyr ifanc i'w gosod), plannu blodau gwyllt neu goed a digwyddiadau trwsio'r goedwig.

Pethau angenrheidiol: Y prif gonsyrn parthed â gwireddu'r prosiect hwn yw cyflwr presennol y coetiroedd. Yn dilyn blynyddoedd o ddiffyg cynnal a chadw, mae sbwriel peryglus (gwydr, metal ayyb) o gwmpas, a choed sydd efallai mewn cyflwr peryglus. Yn ogystal, mae mynediad i'r coetir wedi'i rhwystro gan fieri sydd wedi tyfu'n wyllt a thyfiant glasbrennau. Byddai angen mynd i'r afael â'r problemau hyn cyn bod gweithgareddau a drefnir yn gallu cael eu cynnal yn y coetir.

Hefyd, gydag unrhyw weithgaredd o'r math hwn mae risg iechyd a diogelwch cynyddol. Beth bynnag, mae'n hawdd rheoli hyn drwy ddefnyddio asesiad risg effeithiol a phrosesau arolygu; ni ddylid ystyried hyn yn rhwystr i gynydd.

Budd Cymunedol: O ystyried yr ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gallu cael eu cyflwyno tra'n defnyddio gofod naturiol y gymuned fel "gofod arall", mae'r ystod o fuddion yn sylweddol ac yn ddibynnol ar weithgaredd penodol. Wedi dweud hynny, byddai buddion penodol yn deillio i ryw raddau o bob un o'r gweithgareddau;

- Gwella iechyd meddwl.
- Gwella iechyd corfforol.
- Mwy o gydlyniant cymdeithasol.
- Gwell perchnogaeth cymunedol.
- Mwy o barch tuag at yr amgylchedd naturiol.
- Gwella ansawdd mannau naturiol.
- Rhyngweithio cymdeithasol a lleihau ynysu.
- Profiadau teuluol adferol.
- Cymuned mwy deniadol.

Cyberthnasau: Oherwydd agosrwydd Gelli Werdd i'r Ganolfan Gymunedol gallai unrhyw weithgareddau a gynhelir ar y glaswelltir yng nghoetir y parc ddefnyddio'r Ganolfan fel man cychwyn. O ystyried lleoliad y café, y tai bach a'r dosbarthiadau dan do, byddai datblygu gweithgareddau sydd o fudd i'r ddau ofod yn opsiwn hawdd.

O ran y prosiect yn y coetir sy'n gofyn am adeiladu eitemau (bocsys adar, seddi, dadansoddiadau / ymatebion cerfluniol) yna bydd y cysylltiad arfaethedig gyda'r Gweithdy Cymunedol, ynghyd â'i grwpiau gan gynnwys Sied y Dynion, yn caniatáu gwelliant arwyddocaol i'r prosiect.

Heriau: Efallai yr her fwyaf yn y maes hwn yw'r ffaith nad oes ond bach iawn o ddarpariaeth cyfredol neu hanesyddol o'r math yma yn y gymuned neu yn yr ardaloedd cyfagos. Bydd angen datblygu'r gynulleidfa leol yn arwyddocaol, ac mewn camau, ac hefyd bydd angen ymgysylltu'n strategol gyda mudiadau partner. Mae gan Gwmaman fanteision, yn cynnwys ysgol gynradd gymunedol ragweithiol, Canolfan Deuluoedd Garnant, Clwb Garddio Cwmaman a'r ffaith ei fod yn agos iawn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Dylai pob un o'r rhain gefnogi datblygiad cynnar y cysyniadau hyn.

Yn ychwanegol, rhaid ystyried materion ynghlyn â pherchnogaeth tir a mynediad; er eu bod yn gymharol hawdd i'w goresgyn, maen nhw'n aml yn cynnwys materion cyfreithiol, logistaidd ac yswiriant, ac mae'n rhaid eu goresgyn er mwyn lleihau effeithiau negyddol ar gyflwyniad y prosiect i'r cyhoedd.

6.9.2 Rheoli a Datblygu'r Coetir

Diffiniad: Mewn gwirionedd, olion yr hyn a oedd ar un adeg yn adnodd cynhyrchu ffyniannus ac hanfodol yw'r mwyafrif helaeth o'r gofod "naturiol" a welir o gwmpas Cwmaman. Trwy gydol ei hanes, o'r tai cynharaf hyd at fwyngloddio, mae coed wedi bod yn adnodd naturiol pwysig yn natblygiad y gymuned. Ond dros y 50 -70 mlynedd ddiwethaf mae'r defnydd o'r coed hyn wedi lleihau, ac oherwydd hyn, ynghyd ag effaith mewnfario coed rhatach, mae'r coetiroedd a reolwyd yn dda ar un adeg wedi tyfu'n wyllt, wedi crebachu mewn maint ac wedi llenwi â thyfiant gwan a glasbrennau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae diddordeb yn ein coetiroedd wedi cynyddu, yn rhannol oherwydd gwaith mudiadau fel Ymddiriedolaeth y Goedwig, ond hefyd o ganlyniad i raglenni goroesi a sioeau teledu megis "Axe Men". Mae hyn wedi ennyn mwy o ddiddordeb mewn rheoli coetir a'r sgiliau, yr offer, y crefftau a'r hyfforddiant sy'n gysylltiedig â hyn.

Gan gadw'r ffactorau hyn mewn golwg, byddai'r cynnig hwn yn gweld y datblygiadau canlynol:

- Plannu mwy o goed yn ein coetiroedd a pharciau presennol.
- Datblygu coetir a brysgoediwyd, i'w reoli gan ddysgwyr ac aelodau'r gymuned.
- Rheoli coetiroedd presennol (ym merchnogaeth cyhoeddus a phreifat) gan aelodau'r gymuned.
- Defnyddio deunydd crai at bwrpas crefftau, celfi a chynnyrch llaw arall.
- Cynyddu'r ymdeimlad o berthyn - i'w cymuned a'i hasedau naturiol - i breswylwyr lleol.
- Datblygu ffynhonnell o ddeunydd i'w droi yn gompost a/ neu biomas.

Budd Cymunedol: Bydd pob un o'r agweddau yn y cynnig hwn yn ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach:

- Cydlyniant ac ymgysylltu cymdeithasol.
- Lles corfforol a meddyliol.
- Datblygu sgiliau trosglwyddadwy.
- Incwm cymunedol a chynaliadwyedd ariannol.
- Cyflogaeth lleol ac adfywio economaidd.
- Lleihau ôl-troed carbon Cwmaman.
- Mwy, a gwell, mynediad at lefydd gwyrdd.
- Lleihau ymddygiad negyddol a /neu ddifrodus.
- Cadw sgiliau traddodiadol.
- Gwelliannau esthetig i'r gymuned.
- Canran uwch o bobl sy'n bodloni ar Gwmaman fel lle da i fyw.

Pethau angenrheidiol: cyn dechrau ar y prosiect hwn ar y lefel gyhoeddus bydd angen gwaith mewnol a gwaith partneriaeth sylweddol. Yn benodol ynghylch mynediad at, a'r defnydd a ganiateir, o'r tir. Am resymau cyfreithiol ac yswiriant, rhaid cael tystiolaeth o hyn drwy greu cytundebau a, lle bo hynny'n bosibl, asesiadau risg ar y cyd. Drwy weithio mewn partneriaeth fel hyn dylai fod yn bosibl i ddatblygu'r wybodaeth sydd ei angen i gyflwyno'r prosiect i'r cyhoedd. Lle bod bylchau yn y wybodaeth, ar lefel leol, argymhellir ein bod yn cysylltu â mudiadau rhanbarthol a chenedlaethol a all gefnogi datblygiad y cysyniad.

Cydberthnasau: o ystyried y cyfleoedd a gynigir gan y cynnig hwn mae 'na gyfleoedd arwyddocaol am weithio mewn partneriaeth ac i integreiddio gyda phrosiectau cyfredol ac arfaethedig. Efallai y mwyafrif arwyddocaol yw'r cyfleoedd i weithio gyda mudiadau cenedlaethol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, Coed Cadw a Llais y Goedwig. Ymhellach, mae cyfleoedd i gydweithio gyda chyrrff lleol a rhanbarthol yn cynnwys Grŵp Garddio Cwmaman, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Caerfyrddin. O ran y prosiectau cyfredol ac arfaethedig, bydd y cynnig hwn yn datblygu'r cynllun plannu coed, yn cefnogi datblygiad y gofod gweithdy drwy ddarparu deunyddiau ac yn gwella'r ddarpariaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ym mater darparu dosbarthiadau coetir a rheoli, bydd y cynnig hwn hefyd yn cefnogi defnydd o'r Byncws pan yn cynnig cyrsiau preswyl.

Heriau: ar hyn o bryd mae'r tir i'w ddefnyddio ym meddiant sawl person/asiantaeth. Felly, yr her fwyaf i'r cynnig hwn fydd sicrhau mynediad at, neu berchnogaeth o, y gofodau naturiol sydd eu hangen. O ran y tir sydd, ar hyn o bryd, ym meddiant Cyngor Sir Caerfyrddin, dylid ystyried trosglwyddo'r ased neu sicrhau caniatad i gael mynediad ar ddechrau'r prosiect. Pan yn ystyried y tir sydd mewn perchnogaeth breifat bydd rhaid sicrhau bod y tir yn cael ei ddefnyddio, ei reoli a'i gynnal a chadw mewn ffordd a fydd yn cynnal y prosiect ac a fydd yn bodoli gofynion y perchennog, p'un ai am resymau ariannol neu ddyngarwch cymdeithasol.


6.9.3 Darpariaeth Antur a "Chwaraeon Amgen"

Diffiniad: mae'r cynnig hwn yn cwmpasu newid cyfeiriad o ran y ddarpariaeth "chwarae" sydd ar gael yn y gymuned. Mae'n awgrymu bod symud tuag at wasanaeth sy'n cynrychioli amgylchedd naturiol Cwmaman yn well yn annog gweithgaredd corfforol ac yn cefnogi mynediad at ein gofodau naturiol. Hefyd mae'n anelu at gynnig darpariaeth chwarae, neu weithgaredd corfforol, sy'n cynnwys elfennau nad ydynt ar gael yn yr ardaloedd o gwmpas Cwmaman. Mae'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw at ddiddordeb arbennig mewn darpariaeth chwaraeon amgen (traciau BMX, parciau sglefrfyrdio, waliau dringo) a chwaraeon antur yn cynnwys cyrsiau ymosod, rhaffau uchel, caiacio, i enwi ond ychydig o'r syniadau a grybwyllwyd.

Cydnabyddir y byddai hyn, yn ei gryswth, yn cynrychioli buddsoddiad ariannol sylweddol ac y byddai'n gosod, ar hyn o bryd, straen annaliadwy ar wasanaethau'r cyngor. Serch hynny, y teimlad yw y byddai symud tuag at ddarpariaeth o'r fath, a fydd yn cwrdd â gofynion pobl lleol tra'n denu ymwelwyr i'r ardal, yn ymarferol ac yn addas. Felly, cynigir bod y gweithrediadau canlynol yn cynrychioli ffocws ymarferol a chyraeddadwy o ddefnydd peth o'r gofod awyr agored yn y gymuned:

Trac BMX Gelli Werdd:

Byddai'r agwedd hon ar y cynnig yn gweld datblygiad trac beicio BMX i'r Gorllewin o'r ardal chwarae presennol ar Gelli Werdd. Gan fod y safle yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel ardal chwarae ac adloniant, ei fod yn agos i'r maes parcio ac i'r Ganolfan Gymunedol a bod lle i ddatblygu ymhellach, credir taw dyma'r lleoliad mwyaf addas yng Nghwmaman. Byddai'r safle yn cynnwys trac iau, trac llawn, maes parcio ac ardal chwarae estynedig ac, er mwyn gwasanaethu'r safle, canolfan ymwelwyr. Gallai'r Ganolfan hon hefyd helpu cynnal yr Ardal Chwarae Coetir, ac adloniant, rheolaeth a'r ddarpariaeth addysg coetir.



Ardal Chwarae a Choetir Gelli Werdd:

Wrth ystyried y potensial i ddatblygu ymgysylltiad gyda'r amgylchedd naturiol a gynigir gan yr holl asedau yng Nghwmaman, ynghyd â diddordeb y cyhoedd mewn chwarae a natur, mae'r cynnig arfaethedig canlynol yn ceisio darparu adnodd chwarae unigryw a fydd yn cynnal mwy o fynediad at yr amgylchedd naturiol.

Byddai'r cysyniad yn cynnwys datblygu ardal chwarae antur wedi'i adeiladu o ddeunyddiau naturiol o'r safle neu o'r coetiroedd cyfagos. Ffocws y ddarpariaeth byddai antur, gweithgaredd corfforol, cymryd risg "diogel", addysg bywyd gwyllt a phwysigrwyd yr amgylchedd naturiol.

Yn atodol i'r elfennau sefydlog (siglenni, llwybrau cerdded uchel, dringo ayyb.) byddai'r safle hefyd yn cynnwys gofod hyblyg i'w ddefnyddio i adeiladu cuddfan/ lloches, gofod addysgu, meithrinfa goed a chornel bywyd gwyllt. I gefnogi mynediad at y safle i deuluoedd, byddai'r cynnig yn cynnwys gofod am bicnic, "gardd" goetir a manau eistedd.



Ardal Chwarae Eithafol Garnant:

Yn ystod yr ymgynghoriad mae datblygu'r ddarpariaeth ym Mharc Cwmaman wedi ennyn llawer iawn o ddiddordeb. Mae hyn, ynghyd â'r diddordeb mawr mewn chwaraeon amgen a chwaraeon antur, wedi arwain at ddatblygu'r cynnig isod. Byddai'r datblygiad yn cynnwys:

- Parc sglefrio – gyda darpariaeth “sglefrio gyfeillgar” ychwanegol ar draws y parc.
- Bowl Sglefrio Iau.
- Ardal chwarae estynedig yn cynnwys elfennau o chwaraeon dŵr.
- Wal ddringo wedi'i adeiladu o goncrit / meini mawr.
- Ardal gweithgareddau afon.

O ystyried ei leoliad agos i'r Pafiliwn Bowlio a'r Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd, byddai'r cynnig hwn yn helpu cefnogi'r cysyniadau eraill a gyflwynwir yn yr astudiaeth hon. Ymhellach, byddai'r safle hwn yn cael ei gefnogi gan y meysydd parcio presennol ar ochr ddwyreiniol y safle ac, yn dilyn datblygiad mewn partneriaeth, yn helpu cefnogi cyflwyniad cwricwlwm amrywiol yn ysgol gynradd Ysgol y Bedol.



Pethau angenrheidiol: ystyrir y canlynol i fod yn hanfodol i lwyddiant y cynnig pe byddai'n mynd yn ei flaen:

Rhwydweithiau a Phartneriaethau: gan ystyried natur y ddarpariaeth arfaethedig, bydd datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau gweithredol gyda mudiadau sy'n ymwneud â gweithgareddau megis BMX, sglefryrddio, coetiroedd ac afonydd yn arbennig o bwysig. Dylai'r rhwydweithiau hyn ganolbwyntio ar arweiniad cychwynnol, cefnogaeth yn ystod y cyfnod datblygu ac adeiladu ac eirioli dros, ac hyrwyddo'r cynllun.

Hawliau Defnyddio Tir: mae peth o'r tir a gynhwysir yn y cynnig hwn heb fod ym meddiant Cyngor Tref Cwmaman ar hyn o bryd. Felly bydd cytuno ar ddefnydd y tir, neu drosglwyddiad ased ohono yn hanfodol cyn dechrau unrhyw waith.

Datblygiad Grŵp: bydd y cynllun yn darparu cyfleusterau BMX a sglefrfyrrddio sylweddol, cynllun a fydd yn unigryw yn lleol, felly 'rydym yn cynghori'n gryf bod grwpiau lleol o bobl sydd â diddordeb yn y math yma o weithgareddau yn cael eu datblygu. Gall y grwpiau hyn gyfoethogi'r broses o gynllunio a dylunio'r cynllun, sicrhau ei fod yn cael ei hyrwyddo'n lleol ar lafar ac ar y cyfryngau cymdeithasol ac, unwaith bod y gwaith wedi'i gwblhau, i gefnogi'r gweithgareddau a gynhelir ar y safle.

Budd Cymunedol: Wrth ystyried y cynnig hwn mae'r buddiannau iechyd, adloniant a chwaraeon i breswylwyr lleol yn glir. Serch hynny, byddai'r cynllun yn unigryw yn yr ardal gyfagos ac yn ffordd o ddenu mwy o ymwelwyr i'r ardal, felly byddai'n cynyddu'r refeniw i fasnachwyr lleol a gwella'r cyfleoedd gwaith. Hefyd, mae'r sectorau a dargedir gan lawer o'r cynnig (sglefrfyrrddio, reidio BMX a choetiroedd/ ecoleg) yn cynnwys cymunedau cenedlaethol trefnus iawn. Felly, pe byddai'r gweithgareddau yn cael eu datblygu a'u marchnata'n iawn, gallai'r ddarpariaeth hon ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r Deyrnas Gyfunol. Byddai hyn yn gwella'r ardal fel cyrchfan i dwristiaid ac yn helpu cynnal cynaliadwyedd yr ardal gyfan.

Roedd yr ymgynghoriad wedi dangos bod bobl lleol yn falch o'u cymuned. Byddai datblygu darpariaeth unigryw, fel y disgrifir yn y cynnig hwn ac ym manau eraill o'r astudiaeth hon, yn cefnogi hyn yn fawr ac yn rhoi ymdeimlad o falchder a boddhad i'r bobl sy'n byw yn y gymuned.

Cyberthnasau: fel yr esboniwyd cyn hyn, bydd y berthynas sylfaenol (yn y cynnig hwn) rhwng weithgaredd yn Gelli Werdd a Chanolfan Gymunedol Cwmaman, a gweithgaredd yn Garnant a'r Pafiliwn Bowlio. Serch hynny, bydd cyfleoedd arwyddocaol i ymgyssylltu ag Ysgol y Bedol, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a chyflenwyr gwasanaeth a masnachwyr lleol.

Heriau: her fwyaf y cynnig hwn yw cwmpas a maint y cynllun. Serch hynny, o ystyried yr elfennau gwahanol yn y cysyniad cyfan, bydd hi'n bosibl ei gyflwyno dros nifer o gyfnodau. Hefyd, mae maint y cynnig yn golygu cost sylweddol, felly bydd rhaid adnabod nifer o ffynonellau ariannu. Am y rheswm hwn bydd rhaid i ddatblygiad y prosiect gynnwys deialog parhaus gyda'r daparwyr cyllido er mwyn sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i warchod gallu'r prosiect i gwrdd â'r gofynion ariannu.

7 Dadansoddiad Ariannol

7.4 Costau dangosol yr Adnodd Cymunedol

Mae'r costau canlynol yn seiliedig ar gostau tebyg i gyflwyno prosiectau tebyg mewn cymunedau eraill. Lle bo hynny'n bosibl, mae pob cost unigol wedi'i briodoli i ddatblygiad arfaethedig.

6.1.1 Gofod Swyddfa i Fusnes neu Fudiad sy'n Gymdeithasol Ymwybodol

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Atgyweirio Strwythurol	£23,000	Cyfalaf	
2	Gwydro	£5,700	Cyfalaf	
3	Gwresogi	£3,260	Cyfalaf	
4	Gwasanaethau	£2,600	Cyfalaf	
5	Cyfreithiol	£2,000	Refeniw	
6	Addurno	£3,000	Cyfalaf	
7	Celfi	£4,000	Cyfalaf	
		Cyfanswm y Gost Dangosol		£43,560

6.1.2 Gofod Celf – Stiwdio a Chyfarpar Safle

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Atgyweirio Strwythurol	£19,700	Cyfalaf	
2	Gwydro	£5,700	Cyfalaf	
3	Gwresogi	£2,760	Cyfalaf	
4	Gwasanaethau	£1,900	Cyfalaf	
5	Cyfreithiol	£2,000	Refeniw	
6	Addurno	£1,000	Cyfalaf	
7	Celfi	£2,600	Cyfalaf	
8	Offer	£12,500	Cyfalaf	
9	Trydanol (Cyfarpar)	£900	Cyfalaf	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£49,060	

6.1.3 Eiddo i'w logi - Twristiaeth

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Atgyweirio Strwythurol	£23,000	Cyfalaf	
2	Gwydro	£5,700	Cyfalaf	
3	Gwresogi	£3,260	Cyfalaf	
4	Gwasanaethau	£2,600	Cyfalaf	
5	Cyfreithiol	£2,000	Refeniw	
6	Addurno	£3,200	Cyfalaf	
7	Celfi	£4,600	Cyfalaf	
8	Cegin	£2,600	Cyfalaf	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£46,960	

6.2.1 Datblygu Café Cymunedol

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Gwaith Adeiladu	£12,000	Cyfalaf	
2	Offer i'r Gegin	£2,600	Cyfalaf	
3	Byrddau Café	£3,450	Cyfalaf	
4	Seddi i'r Café	£2,500	Cyfalaf	
5	Addurno	£1,200	Cyfalaf	
6	Offer Gweini	£1,900	Cyfalaf	
7	Cyfarpar Arddangos	£1,600	Cyfalaf	
8	Trydanol/ Rhwydwaith	£1,300	Cyfalaf	
9	Cyfrifiaduron	£3,600	Cyfalaf	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£18,150	

6.2.2 Datblygu Canolbwynt Gwybodaeth Gymunedol

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Cyfrifiaduron	£4,800	Cyfalaf	Hefyd yn berthnasol (yn rhannol) i 6.2.1 a 6.2.3
2	Gliniaduron	£1,703	Cyfalaf	
3	Mannau Gwybodaeth	£2,200	Cyfalaf	
4	Ymgynghorydd Cymunedol	£16,000	Refeniw	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£24,703	

6.2.3 Datblygu GofodCreu (MakerSpace) a Chanolbwynt Creadigol /Technoleg

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Offer	£29,316	Cyfalaf	Hefyd yn berthnasol (yn rhannol) i 6.2.2
2	Gwaith Adeiladu	£6,000	Cyfalaf	Hefyd yn berthnasol (yn rhannol) i 6.2.2
3	Celfi	£8,070	Cyfalaf	
4	Technegydd	£22,000	Refeniw	Hefyd yn berthnasol (yn rhannol) i 6.3.1
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£65,386	

6.3.1 Gweithdy Cymunedol a Gofod Addysg

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Gwaith Adeiladu	£8,760	Cyfalaf	
2	Offer	£9,700	Cyfalaf	Hefyd yn berthnasol (yn rhannol) i 6.2.3
3	Hyfforddiant	£4,450	Cyfalaf	
4	Deunyddiau Traul	£2,600	Refeniw	
5	Technegydd	£22,000	Refeniw	Hefyd yn berthnasol (yn rhannol) i 6.2.3
6	Addurno	£1,600	Cyfalaf	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£49,110	Wedi'i seilio ar weithdy yn unig

6.4.1 Canolfan Addysg – gyda darpariaeth breswyl

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Gwaith Adeiladu	£6,200	Cyfalaf	
2	Addurno	£2,980	Cyfalaf	
3	Offer	£4,120	Cyfalaf	
4	Staff Sesiynol	~ Amrywiol ~	Refeniw	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£13,300	

6.4.2 Darparu Byncws – twristiaeth leol

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Gwaith Adeiladu	£8,600	Cyfalaf	
2	Addurno	£2,980	Cyfalaf	
3	Celfi	£3,800	Cyfalaf	
4	Staff Sesiynol	~ Amrywiol ~	Refeniw	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£15,380	

6.5.1 Café Tymhorol gyda man Llogi Beiciau

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Creu Café	£8,000	Cyfalaf	
2	Cyfarpar i'r Gegin	£2,600	Cyfalaf	
3	Byrddau Café	£3,450	Cyfalaf	
4	Cadeiriau Café	£1,200	Cyfalaf	
5	Addurno	£1,200	Cyfalaf	
6	Offer Gweini	£1,900	Cyfalaf	
7	Cyfarpar Arddangos	£1,600	Cyfalaf	
8	Eisteddle Awyr Agored	£1,800	Cyfalaf	
9	Llogi Beiciau (Beiciau)	£6,400	Cyfalaf	
10	Llogi Beiciau (Storio)	£2,300	Cyfalaf	
11	Siop (Stoc)	£4,000	Refeniw	
12	Offer Chwaraeon	£3,400	Cyfalaf	
13	Cyfarpar Gweithgaredd	£2,700	Cyfalaf	
14	Arwyddion	£1,500	Cyfalaf	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£40,050	

6.6.1 & 6.6.2 Adloniant a Dysgu yn y Coetir

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Cyfarpar	£10,100	Cyfalaf	
2	Clirio'r Coetir	£4,000	Cyfalaf	
3	Arwyddion	£1,200	Cyfalaf	
4	Hyfforddiant	£1,500	Refeniw	
5	Deunyddiau Traul	£3,000	Refeniw	
6	Cyfreithiol	£2,300	Refeniw	
7	Dadansoddi	£6,400	Refeniw	
8	Adnoddau Addysgiadol	£5,260	Refeniw	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£33,760	

6.6.3 Darpariaeth Antur a “Chwaraeon Amgen”

#	Eitem/Agwedd	Cost dangosol	Cyfalaf/Refeniw	Sylwadau
1	Parc Sglefrio	£35,000	Cyfalaf	
2	Wal Ddringo	£10,750	Cyfalaf	
3	Celfi Sglefrio Pwrpasol	£5,600	Cyfalaf	
4	Wal Graffiti	£1,600	Cyfalaf	
5	Ardal Chwarae wedi'i Addasu	£80,000	Cyfalaf	
6	Chwaraele yn y Coetir	£12,700	Cyfalaf	
7	Trac BMX (Cynradd)	£20,000	Cyfalaf	
8	Trac BMX (Llawn)	£36,000	Cyfalaf	
9	Ehangu'r Maes Parcio	£18,000	Cyfalaf	
9	Canolfan Ymwelwyr /Gwasanaeth	£64,000	Cyfalaf	
		Cyfanswm y Gost Dangosol	£283,650	

ⁱ The Benefits of NERF Wars – a blog article: <http://blog.toysparadise.com.au/nerf-war/>

ⁱⁱ 5 Surprising Benefits of Volunteering - <https://www.forbes.com/sites/nextavenue/2015/03/19/5-surprising-benefits-of-volunteering/#7720a8b127bf>

ⁱⁱⁱ Green space, mental wellbeing and sustainable communities - <https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2016/11/09/green-space-mental-wellbeing-and-sustainable-communities/>

Green Space and Health (Research Overview) - <http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-0538/POST-PN-0538.pdf>

Trees and woods for well-being and quality of life - <https://www.forestry.gov.uk/fr/healthandwellbeing>

^{iv} How forest school benefits families - <http://www.merseyforest.org.uk/things-to-do/support-us/how-forest-school-benefits-families/>

^v Trees can benefit your children too! - <https://www.woodlandtrust.org.uk/mediafile/100097683/trees-can-benefit-children.pdf>

^{vi} Forrest Schools - <http://www.forestschoolltraining.co.uk/forest-school/the-benefits/>